

Rhif: WG38244



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o ymateb

Diwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol Ychwanegol 2019–22

16 Gorffennaf 2019

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Acronym a ddefnyddir	3
Rhestr o ffigurau	3
Cyflwyniad	4
Ynglŷn â'r ymgynghoriad.....	4
Crynodeb o'r themâu trosfwaol	6
Y camau nesaf	8
Atodiad A	11
Methodoleg	11
Adrodd am ganfyddiadau	12
Dadansoddiad o Gwestiwn 1	13
Dadansoddiad o Gwestiwn 2	19
Dadansoddiad o Gwestiwn 3	26
Dadansoddiad o Gwestiwn 4	31
Dadansoddiad o Gwestiwn 5	37
Dadansoddiad o Gwestiwn 6	41
Dadansoddiad o Gwestiynau 7 ac 8	45
Dadansoddiad o Gwestiwn 9	49

Acronym a ddefnyddir

Acronym	Fersiwn estynedig
HMS	Hyfforddiant mewn swydd

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, naill ai ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno bod diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd (n = 892).....13

Ffigur 2: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno y byddai un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn adnodd ychwanegol digonol (n = 628).....19

Ffigur 3: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, naill ai ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno y dylid paratoi cynnwys gorfodol ar gyfer y diwrnodau ychwanegol hyn (n = 885)37

Ffigur 4: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno y byddai pennu dyddiad penodedig ar gyfer y diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ychwanegol yn fuddiol (n = 855).....41

Cyflwyniad

Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, yn anelu at godi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy'n ffynhonnell balchder cenedlaethol a hyder cyhoeddus.¹ Mae datblygu cwricwlwm a threfniadau asesu newydd (a ddatblygwyd ers 2016 ar y cyd â rhwydwaith o Ysgolion Arloesi a rhanddeiliaid addysg eraill) yn elfen hanfodol o gyflawni'r genhadaeth hon.

Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cefnogi gweithwyr addysgu proffesiynol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Cred Llywodraeth Cymru y bydd canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol yn hanfodol i sicrhau parodwydd yr holl ymarferwyr a'u hymgysylltiad â'r cwricwlwm newydd. Bwriad y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a'r buddsoddiad £24 miliwn cysylltiedig yw helpu i greu amser mewn ysgolion fel bod gweithwyr proffesiynol yn gallu datblygu eu hunain a'u sgiliau a chydweithio mewn ysgolion ac ar draws ysgolion.² Mae'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol yn sbardun allweddol ar gyfer yr amcanion yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol ar hyd gyrfa sydd wedi'i ymgorffori mewn ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio effeithiol.

Fodd bynnag, hyd yn oed gyda chyflwyno'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, a darparu'r cyllid ychwanegol hwn, mae angen atgyfnerthu ymgysylltiad cyffredinol ar draws y system o ran paratoi ac ymwybyddiaeth o oblygiadau'r cwricwlwm newydd. Felly mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi'r amser ychwanegol hwn i ymarferwyr ar ffurf diwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol. Byddai'r rhain ar gael ar gyfer y tair blynedd academaidd nesaf (2019/20, 2020/21 a 2021/22) wrth i ysgolion ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol mewn ysgolion (blwyddyn academaidd 2022/23). Bydd hyn yn ategu'r pum diwrnod HMS presennol a ddyrennir i ysgolion bob blwyddyn academaidd.

I wneud hyn, bydd rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu nifer y diwrnodau HMS trwy ddiwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003. Byddai'r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir ddefnyddio un diwrnod (h.y. dwy sesiwn ysgol) at ddibenion HMS, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd. O ganlyniad, byddai ysgolion yn cynnal chwe diwrnod HMS y flwyddyn, a byddai'r ysgolion ar gau i ddisgyblion ar y diwrnod HMS ychwanegol.

Cafodd yr ymgynghoriad ar *Ddiwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol Ychwanegol 2019–22* ei lansio ar 5 Mawrth 2019 a chaeodd ar 1 Mai 2019. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yn:

https://llyw.cymru/diwrnodau-hms-ychwanegol-dysgu-proffesiynol-cenedlaethol-2019-2022?_ga=2.33264190.1433623936.1560258923-704233539.1543826951

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 899 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn:

- Cafodd 894 eu cyflwyno drwy'r ymgynghoriad ar-lein

¹ Llywodraeth Cymru (2017), *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*.

² Llywodraeth Cymru (2018), *Y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol* https://llyw.cymru/y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol?_ga=2.35191713.1433623936.1560258923-704233539.1543826951

- Cafodd pump eu cyflwyno dros yr e-bost (nid oedd dau o'r ymatebon hyn y dilyn strwythur y cwestiynau ymgynghori yn uniongyrchol)

Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar *Ddiwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol Ychwanegol 2019–22*. Mae'r ddogfen gryno hon yn cyflwyno canfyddiadau allweddol y dadansoddiad, gan nodi'r negeseuon a themâu allweddol a gyflwynwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r dadansoddiad llawn o'r ymatebion ar gael yn Atodiad A.

Crynodeb o'r themâu trosfwaol

Mae'r adran gychwynnol hon yn cyflwyno themâu allweddol penodol a gododd yn aml drwy gydol yr holl ymgynghoriad. Er bod y cwestiynau ymgynghori yn canolbwyntio ar elfennau gwahanol y cynigion HMS, gwnaeth y dadansoddiad ganfod themâu trosfwaol a ailadroddwyd sy'n cael eu codi ar draws sawl cwestiwn a/neu yn cael eu hailadrodd ar sawl achlysur gan yr ymatebwyr.

Y duedd gyffredinol ymhlith yr ymatebion oedd cytundeb bod diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol, a gorau oll os oes mwy nag un mewn llawer o achosion. Ochr yn ochr â hyn, awgrymwyd modelau cyflawni amgen, gan gynnwys mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn, gan gynnig y diwrnodau hyn am o leiaf dair blynedd (a hyd yn oed mwy i ganiatáu ar gyfer gweithredu a gwerthuso), ac opsiynau gwahanol o ran amseriad addas ar gyfer y diwrnodau HMS ychwanegol.

Roedd tuedd i ymatebwyr bwysleisio y dylai diwrnodau HMS ychwanegol gael eu hystyried fel rhan o daith dysgu proffesiynol ehangach. Roedd ymateb i drefniadau cwricwlwm ac asesu newydd – yn ogystal â diwygiadau addysgol ehangach – yn cael ei nodi'n glir fel tasg y tu hwnt i gwmpas un diwrnod HMS ychwanegol. Bydd angen rhaglen gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol a chynllunio ar ymarferwyr, a fydd yn gwneud newidiadau i ddiwrnodau HMS presennol, amser cynllunio, paratoi ac asesu, gweithio mewn clwstwr, a chymorth rhanbarthol yn angenrheidiol.

Yn aml, gwnaeth ymatebwyr fynegi ymwybyddiaeth o raddfa'r gwaith sy'n ofynnol i addasu i gwricwlwm newydd cymhleth a gallu ymarferwyr i ymgymryd â gwaith o'r fath. Gwnaeth yr ymatebwyr bwysleisio bod llwythi gwaith ymarferwyr eisoes yn drwm a bod diwygio'r cwricwlwm (a diwygiadau addysgol eraill) yn faich ychwanegol. Felly, gwnaeth yr ymatebwyr bwysleisio y dylai'r ffaith honno fod yn flaenllaw wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â dysgu proffesiynol.

Gan fod y cwricwlwm newydd yn pwysleisio cydweithredu, roedd ymatebwyr yn dueddol o ddweud y byddai diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i ymarferwyr ddod at ei gilydd i gyd-ddylunio elfennau o'r cwricwlwm a rhannu arferion da. Mae gweithio ar draws pynciau ac ar draws Cyfnodau Allweddol yn cael ei gydnabod fel egwyddor graidd ar gyfer y cwricwlwm newydd. Er bod rhywfaint o ddysgu a chynllunio proffesiynol yn gallu cael ei wneud yn ystod cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu neu debyg, bydd angen amser neilltuedig ar ymarferwyr gyda'i gilydd i ddatblygu eu gweledigaeth a chwricwlwm, gan sicrhau dull cydlynol tuag at addysgeg a chynnwys y cwricwlwm ar draws yr ysgol. Yn yr un modd, mae angen diwrnodau neilltuedig ar ysgolion i gydweithio a rhannu arferion da gydag ysgolion eraill yn eu clystyrau.

Gwnaeth yr ymatebwyr nodi pwysigrwydd ystyried cwmpas y diwygio addysgol yn gyffredinol wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â chyfleoedd dysgu proffesiynol. Gwnaeth yr ymatebwyr fynegi ymwybyddiaeth y dylid ystyried diwrnodau HMS ychwanegol yng nghyd-destun yr amrediad o ddiwygiadau addysgol a fydd yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae newidiadau allweddol i'w hystyried yn cynnwys newidiadau i strwythurau dysgu proffesiynol, tâl ac amodau athrawon, dulliau hunanwerthuso, dulliau newydd ar gyfer asesu ac arolygu, a diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd ymatebwyr yn dueddol o bwysleisio y bydd angen amser neilltuedig megis diwrnodau HMS er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd mewn modd ystyriol, cyson ac effeithiol. Mae ysgolion yn dechrau ar eu teithiau diwygio'r cwricwlwm o amgylchiadau

gwahanol iawn ac mae amser dysgu proffesiynol, amser cynllunio, a chymorth neu arweiniad digonol gan sefydliadau haen ganol ac undebau yn hanfodol er mwyn gwneud cyfiawnder â'r weledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o ymwybyddiaeth ymhlith ymatebwyr fod yn rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng darparu diwrnodau HMS ychwanegol ac osgoi'r effaith negyddol ar rieni sy'n gweithio a/neu ganlyniadau dysgwyr. Roedd yr ymatebwyr yn dueddol o ddweud bod yn rhaid i effaith y diwrnodau HMS ychwanegol ar rieni gael ei lliniaru ac y dylid cyfyngu ar nifer y dyddiau y mae dysgwyr allan o'r ystafell ddosbarth.

Y camau nesaf

Wrth ymateb i ganlyniadau'r ymgynghoriad, rydym wedi ystyried yr adborth a'r sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr yn fanwl.

Rydym yn ddiolchgar i'r niferoedd mawr a dreuliodd amser yn mynegi eu safbwyntiau, gan ein helpu i lywio ein dull gweithredu wrth symud ymlaen.

Fel y gwnaethom fynegi yn y ddogfen ymgynghori, dymuniad Llywodraeth Cymru yw cefnogi gweithwyr addysgu proffesiynol yn benodol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Credwn y bydd canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol yn hanfodol i sicrhau parodrwydd yr holl ymarferwyr a'u hymgysylltiad â'r cwricwlwm newydd.

Bydd y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a'r buddsoddiad £24 miliwn cysylltiedig rydym wedi'i roi ar gael yn helpu i greu amser mewn ysgolion fel bod gweithwyr proffesiynol yn gallu datblygu eu hunain a'u sgiliau a chydweithio mewn ysgolion ac ar draws ysgolion.³ Mae'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol yn sbardun allweddol yn "Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl" a dyma'r fframwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflenwi dysgu proffesiynol ar gyfer ei holl ddiwygiadau addysg y tu mewn iddo.

Fodd bynnag, hyd yn oed gyda chyflwyno'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, a darparu'r cyllid ychwanegol o £24 miliwn, gwnaethom gydnabod yr angen i atgyfnerthu ymgysylltiad cyffredinol ar draws y system o ran paratoi ac ymwybyddiaeth o oblygiadau'r cwricwlwm newydd – drwy ymgynghori ar ddiwrnodau HMS ychwanegol, gwnaethom gydnabod yr angen i ddarparu amser ychwanegol ar gyfer yr ysgol gyfan i'r holl ymarferwyr allu gwneud hyn.

Rydym yn dymuno bod yn glir fod y diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ychwanegol arfaethedig yn rhan hanfodol o'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol. Ni ddylai'r diwrnod ychwanegol gael ei weld fel cynnig ar ei ben ei hun, nac fel awgrym fod un diwrnod ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ddigonol ynddo'i hun i fynd i'r afael â'r anghenion dysgu proffesiynol sy'n gynhenid ar gyfer gwireddu'r cwricwlwm newydd. Yn hytrach, dylai'r cynnig gael ei weld o fewn cyd-destun y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol yn gyffredinol, a dylid ei weld ochr yn ochr â'r cyllid ychwanegol rydym wedi'i roi ar gael i greu mwy o amser mewn ysgolion ar gyfer ymgysylltu â dysgu proffesiynol.

Ar ôl ystyried y dadansoddiad manwl (a geir yn Atodiad A yr adroddiad), rydym yn cynnig y canlynol:

- 1. Diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 i ddarparu un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd, tan 2022, i ganolbwyntio'n benodol ar ddysgu proffesiynol i gefnogi'r cwricwlwm newydd.**

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos cytundeb clir, gan dros 90% o ymatebwyr, â'n cynnig i gynyddu nifer y diwrnodau HMS ar gyfer dysgu proffesiynol i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Gwelir bod y diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol gan ymarferwyr, undebau a sefydliadau haen ganol megis awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mae hyn yn

³ Llywodraeth Cymru (2018), *Y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol* https://llyw.cymru/y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol?_ga=2.35191713.1433623936.1560258923-704233539.1543826951

adlewyrchu diwygio cymhleth ac ar raddfa fawr, ac adeiladu capasiti sy'n angenrheidiol i ymarferwyr allu cyflwyno'r cwricwlwm.

Gwnaeth llawer o ymatebwyr alw am fwy nag un diwrnod HMS ychwanegol, ac am gyfnod mwy na'r tair blynedd arfaethedig. Nid ydym yn cynnig diwygio'r rheoliadau am fwy na thair blynedd oherwydd yn ystod y cyfnod hwnnw bydd cyd-destun ehangach y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol yn datblygu a byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth a chyflawni gwaith ymchwil i'r defnydd o ddiwrnodau HMS ac i fonitro newidiadau o fewn y system ehangach a allai gael effaith ar ein dull. Mae gan yr holl ffactorau y potensial i arwain at ddatblygiadau neu newidiadau pellach yn y dyfodol.

2. Diwygio'r rheoliadau i nodi y dylai'r diwrnodau HMS dysgu proffesiynol ychwanegol ddigwydd bob blwyddyn, yn ystod tymor yr haf

Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod dwy ran o dair yr ymatebwyr yn cytuno y byddai naill ai cael dyddiad neu gyfnod penodedig yn fuddiol, ond gwnaeth llawer o ymatebion bwysleisio bod problemau ymarferol o ran nodi dyddiad penodedig. Roedd y rhain yn cynnwys yr her o gael mynediad at brofiadau cydweithwyr o Ysgolion Arloesi ac eraill o fewn eu clystyrau. Roedd traean o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai pryd mae'r diwrnod HMS yn digwydd fod yn rhywbeth i'r ysgol benderfynu arno er mwyn caniatáu ar gyfer hyfforddiant a gynlluniwyd ymlaen llaw ac ymreolaeth yr ysgol.

Felly rydym yn cynnig y dylai'r diwrnod HMS ddigwydd yn ystod cyfnod penodedig yn hytrach nag ar ddyddiad penodol. Bydd cynnal diwrnodau HMS ar adeg debyg, er bod hynny yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd, yn helpu i feithrin sgwrs genedlaethol a sicrhau bod yr holl athrawon yn derbyn yr un negeseuon, ac nid oes unrhyw rai yn cael eu gadael ar ôl.

Rydym yn cynnig y byddai tymor yr haf yn amser priodol i gynnal y diwrnodau HMS. Ar gyfer y flwyddyn gyntaf, byddai tymor yr haf yn caniatáu amser i ni ddiogelu adnoddau, ac yn ystod yr ail flwyddyn byddai hyn yn caniatáu amser i werthuso'r effaith, gan wneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol. Byddwn yn argymhell y dylai ysgolion, yn gyffredinol, ystyried yn ofalus amseriad y diwrnod ac y dylai'r holl ddiwrnodau HMS gael eu cyhoeddi ymhell ymlaen llaw er mwyn lleihau'r effaith ar deuluoedd.

3. Argymhelliad i ysgolion y dylai isafswm o un diwrnod arall, allan o'r pum diwrnod HMS gwreiddiol sydd eisoes wedi eu dyrannu i ysgolion, hefyd gael ei ddefnyddio i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ac y dylid clustnodi'r amser hwnnw ar adeg sy'n addas i'r ysgol.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r adborth a geir yn yr ymatebion, lle y bo 78% o ymatebwyr yn teimlo na fyddai un diwrnod ychwanegol yn ddigonol. Mae swyddogion yn cytuno y bydd angen mwy o amser ond y gallai hyn ddod allan o un o'r diwrnodau HMS sy'n bodoli eisoes, gan adlewyrchu'r ffaith fod rhai a oedd yn teimlo bod eu hysgolion yn defnyddio diwrnodau HMS yn dda eisoes yn eu defnyddio i weithio ar weithredu'r cwricwlwm newydd.

Ni allwn gyfiawnhau yn llawn fwy nag un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn o ystyried y baich ariannol ychwanegol y byddai hyn yn ei roi ar rai rhieni, yn aml y rhai sy'n gallu ei fforddio leiaf. Mae tensiwn hefyd rhwng ein dull o flaenoriaethu presenoldeb plant a darparu llai o ddiwrnodau ysgol yn gyffredinol.

Yn hytrach, rydym yn argymhell i'r holl ysgolion eu bod yn defnyddio un o'u diwrnodau HMS sy'n bodoli eisoes fel ffordd o gefnogi eu parodrwydd ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Er mwyn cefnogi hyn, byddai cronfa adnoddau ar gael i ysgolion ei defnyddio i'w cefnogi ar y diwrnodau hyn (gweler isod).

4. Datblygu cronfa adnoddau y gellir ei defnyddio i lywio sesiynau HMS.

Gwnaeth yr ymgynghoriad ofyn am safbwyntiau ar a ddylai Llywodraeth Cymru orchymyn cynnwys y deunydd ar gyfer y diwrnodau HMS. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn rhanedig gyda 37% yn teimlo na ddylem a 38% yn teimlo y dylem, gyda'r gweddill heb benderfynu.

Roedd llawer yn teimlo y dylai'r dewis gael ei wneud gan yr ysgolion, ac y dylai ein dull ar gyfer y diwrnodau HMS ychwanegol hyn adlewyrchu ethos y cwricwlwm newydd drwy roi mwy o alluedd i ymarferwyr. Rydym yn cytuno y bydd hyblygrwydd yn hanfodol, ond mae'n glir y byddai cyfeiriad yn ddefnyddiol ar gyfer rhai ysgolion, yn enwedig y rhai nad ydynt yn Ysgolion Arloesi.

Gallai'r defnydd o'r gair 'gorfodol' yn nhestun yr ymgynghoriad fod wedi awgrymu ein bod wedi cynllunio bod yn gyfarwyddol iawn o ran y cynnwys a gynigir i ysgolion. Yr hyn rydym yn ei gynnig, fodd bynnag, yw bod cronfa neu fframwaith o adnoddau'n cael ei greu y bydd ysgolion yn gallu dewis oddi wrtho, gan ddibynnu ble y maent ar eu taith gwricwlwm unigol. Dylai cronfa o adnoddau dwyieithog ar-lein alluogi digon o wahaniaethu i ysgolion ddewis a dethol yr hyn y byddant yn ei gwmpasu ar y diwrnodau HMS.

Rydym yn cynnig cadarnhau'r adnoddau hyn dros y naw mis nesaf fel eu bod yn barod i ysgolion eu defnyddio erbyn haf 2020.

Bydd y defnydd o ddiwrnodau HMS, a'u heffeithiolrwydd, yn destun darn o waith ymchwil i'w gyflawni gan Brifysgol De Cymru. Bydd y dysgu hwn yn bwydo i'r adnoddau i'w datblygu yn ogystal â'r farn ehangach ar y defnydd o ddiwrnodau HMS a'u diben.

Bydd gwaith yn cael ei gyflawni bellach i ddiwygio'r rheoliadau (Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 (fel y'u diwygiwyd)) a gweithredu'r dull polisi a amlinellir uchod. Yn dilyn y weithdrefn ddeddfwriaethol angenrheidiol, dylai'r rheoliadau gael eu diwygio erbyn dechrau mis Medi 2019 er mwyn caniatáu ar gyfer diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ychwanegol ar gyfer blynyddoedd academaidd 2019/20, 2020/21 a 2021/22.

Atodiad A

Methodoleg

Cafodd y data meintiol (h.y. y data yn seiliedig ar gwestiynau caeedig) o'r ymatebion a ddilynodd strwythur y cwestiynau ymgynghori ei ddadansoddi. Roedd yr ymatebion meintiol hyn yn cynnwys atebion 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu 'anghytuno' i rai o'r cwestiynau ymgynghori.

Gwnaed dadansoddiad thematig o'r data ansoddol (data yn seiliedig ar gwestiynau pen agored) yn yr ymatebion ymgynghori. Gwnaeth y dadansoddiad thematig gategoreiddio'r safbwyntiau, sylwadau, datganiadau a materion a godwyd gan yr ymatebwyr i themâu trosfwaol. Nod y dadansoddiad oedd nodi'r themâu roedd yr ymatebion ymgynghori yn dod oddi tanynt yn fwyaf aml. Roedd y broses ar gyfer ymgymryd â'r dadansoddiad hwn fel a ganlyn:

1. Cafodd sampl ar hap o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn ei adolygu gan ddau ymchwilydd (y naill a'r llall yn adolygu hanner gwahanol o'r sampl). Cafodd maint y sampl ei benderfynu gan nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i bob cwestiwn ac roedd yn cynnwys o leiaf 30% o gyfanswm yr ymatebion fesul cwestiwn.
2. Cafodd yr ymatebion yn y sampl eu codio'n thematig, er mwyn nodi'r themâu oedd yn codi'n fwyaf aml.
3. Yna gwnaeth un o'r ymchwilyddyr adolygu'r holl ymatebion a oedd yn weddill i bob cwestiwn i sicrhau bod y themâu a nodwyd yn parhau'n gyson ac i nodi themâu newydd a oedd yn codi. Roedd hyn yn cynnwys cymharu sylwadau'r rhai a oedd wedi ateb 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu 'anghytuno' i'r cwestiynau perthnasol. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys cymharu sylwadau ysgolion/ymarferwyr, undebau, sefydliadau haen ganol, rhieni, a phoblogaethau o ymatebwyr eraill lle y bo'n bosibl gan fod y grwpiau hyn wedi dynodi eu hunain.
4. Gwnaeth y broses hon sicrhau bod yr holl ymatebion ymgynghori wedi cael eu hadolygu yn ystod y dadansoddiad.

O'r cyfanswm o 899 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn, roedd modd adnabod 478 fel rhai gan grŵp poblogaeth penodol, yn hytrach nag ymatebydd unigol anhysbys. Roedd modd eu hadnabod oherwydd naill ai roeddent wedi nodi eu grŵp poblogaeth yn y cwestiwn ymgynghori priodol neu roedd modd adnabod eu grŵp poblogaeth yn glir yn ôl eu hymateb (e.e. "Fel rhiant, rwyf yn teimlo ..."). Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl gwybod pa grwpiau poblogaeth mae'r ymatebion anhysbys yn eu cynrychioli. O ganlyniad, mae unrhyw ddadansoddiad o'r ymatebion yn ôl grwpiau poblogaeth yn yr adroddiad hwn yn betrus a rhaid eu dehongli yn ofalus. Yn ychwanegol, mae grwpiau poblogaeth penodol (megis rhieni neu warcheidwaid) yn llai tebygol nag eraill o ddynodi eu hunain. At hynny, mae rhai ymatebwyr wedi dynodi eu hunain fel awdurdod lleol pan ei fod yn ymddangos yn ôl eu sylwadau eu bod mewn gwirionedd yn ysgol neu ymarferydd o fewn yr awdurdod lleol hwnnw. Gan gadw hyn mewn cof, mae nifer yr ymatebion gan grwpiau poblogaeth penodol fel a ganlyn:

- Priodolwyd 394 i ysgolion neu ymarferwyr (gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar);
- Priodolwyd 41 i sefydliadau haen ganol (megis awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, cyrff neu sefydliadau cynrychioliadol eraill) neu undebau;
- Priodolwyd 17 i riant neu warcheidwad;
- Priodolwyd tri i sefydliadau addysg uwch;

- Priodolwyd pedwar i gwmni preifat neu sefydliad trydydd sector; ac
- Nid oedd modd priodoli 440 o'r ymatebion i grŵp penodol.

O ystyried yr heriau a drafodir uchod o ran sicrhau lefel o sicrwydd o ran nifer yr ymatebion gan grwpiau poblogaeth penodol, nid yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion i gwestiynau caeedig (data meintiol) yn ôl grŵp poblogaeth; nid yw'r niferoedd yn ddigon manwl gywir i alluogi hyn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o gwestiynau pen agored (data ansoddol) yn seiliedig ar y data grŵp poblogaeth sydd ar gael. Mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r dadansoddiadau hyn hefyd, gan ystyried bod nifer yr ymatebion gan ysgolion neu ymarferwyr a gafodd eu hadnabod yn sylweddol uwch na nifer yr ymatebion gan grwpiau poblogaeth eraill.

Adrodd am ganfyddiadau

Felly mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno themâu allweddol sy'n codi'n gyson o fewn ymatebion ymgynghori. Mae digonedd o dystiolaeth a ddarperir drwy'r ymgynghoriad sy'n cefnogi'r themâu hyn ac sy'n darparu manylion ychwanegol sylweddol i'w defnyddio gan Lywodraeth Cymru. **Drwy gydol yr adroddiad, mae'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynir yn cael eu tynnu o'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr yr ymgynghoriad ac nid ydynt yn cynrychioli safbwyntiau awduron yr adroddiad.** Caiff y themâu eu cyflwyno yn ôl trefn amllder o dan bob datganiad.

Er mwyn bod yn gryno ac osgoi ailadrodd yn ormodol o ran sut mae'r canfyddiadau yn cael eu cyflwyno, nid yw'r awduron o reidrwydd wedi rhoi rhagair i bob thema neu bwynt megis '*Nododd yr ymatebwyr fod ...*'. Yn hytrach, rhagdybir y bydd y darlennydd yn deall bod yr holl themâu a gyflwynir yn grynodedbau o sylwadau gan unigolion a sefydliadau a gyfrannodd at yr ymgynghoriad.

I gloi, mae detholiad o ddyfyniadau'n britho'r adroddiad i ddangos y pwyntiau a'r themâu a gyflwynwyd.

Dylid nodi bod y ffordd y cafodd ambell gwestiwn ymgynghori ei eirio wedi creu rhai heriau ar gyfer dehongli a chyflwyno'r data, yn arbennig y data meintiol (data o gwestiynau caeedig). Roedd Cwestiwn 5 yn cynnwys y gair 'gorfodol', ond bellach mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai ymadrodd megis 'strwythuredig' neu 'arweiniol' fod wedi bod yn fwy priodol. Roedd Cwestiwn 6 yn cynnwys opsiwn 'naill ai / neu', a oedd yn golygu bod yr ymatebwyr wedi straffaglu i ateb y cwestiwn caeedig. Ar gyfer ymatebwyr a nododd yng Nghwestiwn 1 nad oeddent yn credu bod unrhyw ddiwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol, roedd y cwestiynau dilynol yn ymwneud yn benodol â strwythur a chynnwys y diwrnodau hyn yn llai perthnasol.

Dadansoddiad o Gwestiwn 1


Bwriad y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a'r buddsoddiad £24 miliwn cysylltiedig yw helpu i greu amser mewn ysgolion fel bod gweithwyr proffesiynol yn gallu datblygu eu hunain a'u sgiliau a chydweithio mewn ysgolion ac ar draws ysgolion. Fodd bynnag, er gwaethaf y dull gweithredu newydd hwn a'r cyllid ychwanegol, rydym yn credu y gall fod angen atgyfnerthu ymgysylltiad cyffredinol ledled y system o ran paratoi ac ymwybyddiaeth o oblygiadau'r cwricwlwm newydd.

Felly, cynigir sefydlu diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ychwanegol a fydd yn ategu'r amser HMS a ddyrennir i ysgolion ar hyn o bryd.

Ydych chi'n credu bod angen diwrnod HMS ychwanegol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd?

Mewn cwestiwn caeedig, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r ffigur isod yn cyflwyno'r canlyniadau: roedd 91% o ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn, nid oedd 2% naill ai'n cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 7% yn anghytuno.

Ffigur 1: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, naill ai ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno bod diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd (n = 892)



Gwnaed 467 o sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno â'r cwestiwn (a'r nifer bach nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno), roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn.

Mae diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol oherwydd bod y cwricwlwm newydd yn ddiwygiad cymhleth ac ar raddfa fawr a fydd yn ychwanegu'n sylweddol at y llwythi

gwaith trwm sydd gan ymarferwyr eisoes. Nododd yr ymatebwyr fod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cynrychioli symudiad helaeth a hanfodol o ran ffyrdd o feddwl ac arferion addysgu. Gwnaethant bwysleisio bod angen amser ychwanegol gwarchoddedig ar ymarferwyr i ymgysylltu â'r amrediad eang o strwythurau a disgwyliadau newydd. Bydd paratoi ar gyfer diwygio ar raddfa fawr o'r fath yn heriol ar gyfer ymarferwyr sydd eisoes yn wynebu llwythi gwaith trwm a phwysau i gyflawni elfennau o'u gwaith yn ystod eu hamser eu hunain. Felly mae amser ychwanegol yn hanfodol i gyfyngu ar y baich a roddir ar allu ymarferwyr.

"Y newidiadau arfaethedig o bosibl yw'r diwygiadau mwyaf erioed o'r cwricwlwm yng Nghymru. Byddant yn profi newid ar raddfa eang yn y ffordd y mae plant yn cael eu haddysgu. Heb yr hyfforddiant angenrheidiol, ni fydd athrawon ac addysgwyr eraill mewn sefyllfa i gyflawni'r hyn sy'n angenrheidiol. Yn anffodus, yn sgil maint y newidiadau, credaf fod angen llawer mwy nag un diwrnod y flwyddyn er mwyn gwneud cyfiawnder â phlant Cymru." (Undeb)

O ganlyniad, gwnaeth yr ymatebwyr achub ar y cyfle hwn i bwysleisio nad oedd un diwrnod HMS ychwanegol yn ddigon. Nid yw'r ymatebwyr yn teimlo bod un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn yn caniatáu i ymarferwyr baratoi yn ddigonol, o ystyried cymhlethdod a chwmpas y diwygiadau. Mae nifer y diwrnodau HMS angenrheidiol yn cael ei drafod ymhellach o dan y dadansoddiad o gwestiynau 2 a 3 yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

"Ni fydd un diwrnod yn ddigon i adeiladu cwricwlwm effeithiol sy'n benodol i ysgolion unigol ac sy'n cefnogi ac yn herio dysgwyr unigol yn effeithiol. Bydd rhoi'r amser i'r proffesiwn feithrin cyfleoedd dysgu ac addysgu sy'n ystyrlon yn cymryd amser." (Ysgol neu ymarferydd)

Mae o leiaf un diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol er mwyn rhoi amser i ymarferwyr ar gyfer cynllunio cwricwlwm cynhwysfawr. Gwelir bod amser cynllunio, paratoi ac asesu presennol yn annigonol i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd. Nododd ymatebwyr mai clustnodi amser ychwanegol yw'r unig ffordd y bydd ymarferwyr yn gallu cynllunio cynlluniau gwaith cyfan newydd. Tybir bod maint y gwaith sy'n ofynnol i ddatblygu cwricwlwm newydd yn sylweddol ac mae'n rhaid dyrannu amser i sefydlu sylfaen gadarn drwy gynllunio addas.

"Bydd gweithredu'r cwricwlwm newydd angen gwaith sylweddol i'w sefydlu. Bydd angen datblygu gwaith cynllunio ysgol gyfan er mwyn cwmpasu'r amrediad o sgiliau sydd angen eu datblygu gan staff i sicrhau canlyniadau addysgol da ar gyfer disgyblion ar hyd eu gyrfaedd ysgol." (Ysgol neu ymarferydd)

Gwelir o leiaf un diwrnod HMS ychwanegol yn gyfle angenrheidiol er mwyn i ymarferwyr ddeall, dehongli a myfyrio ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Bydd yr amser ychwanegol hwn yn caniatáu i athrawon wneud y canlynol: archwilio'r cwricwlwm newydd; asesu ei oblygiadau ar gyfer eu cynllunio ac addysgeg; meithrin perchenogaeth o'u cwricwlwm ar lefel ysgol; a myfyrio ar y newidiadau angenrheidiol i ffyrdd o feddwl a diwyllianau'r ysgol. Gwelir bod y broses hon yn hanfodol i sicrhau bod ymarferwyr wedi ymgysylltu'n llawn â'r cwricwlwm newydd ac yn fodlon ac yn gallu adlewyrchu ei egwyddorion craidd yn eu harferion addysgu.

"Ar gyfer llawer o athrawon, mae hon yn ffordd wahanol iawn o feddwl, h.y. creadigrwydd yw'r allwedd ar gyfer y cwricwlwm newydd hwn, ac mae amser yn allweddol i greadigrwydd." (Ymatebydd unigol)

Gwelir bod o leiaf un diwrnod HMS ychwanegol yn gyfle angenrheidiol i ymarferwyr gydweithio, cyd-ddylunio elfennau o'r cwricwlwm a rhannu arferion da. Gwnaeth yr ymatebwyr sylw mai cyfyngedig yw amser ymarferwyr y tu allan i'w hamserlen addysgu a chynllunio i ymgysylltu â'i gilydd. Yn yr un modd, prin yw'r amser i ysgolion ymgysylltu ag ysgolion eraill o fewn eu clystyrau. O ystyried yr egwyddorion thematig, trawsbynciol ac ar draws Cyfnodau Allweddol y mae'r cwricwlwm newydd yn seiliedig arnynt, mae angen diwrnod HMS ychwanegol ar ymarferwyr i ddatblygu eu cwricwlwm lleol fel tîm. Mae angen diwrnod HMS ychwanegol ar ysgolion i rannu arferion da ar draws clystyrau a chydweithio ar dulliau pontio.

"Mae'n hanfodol a) fod gan yr holl athrawon yr amser i ddatblygu eu dulliau ar gyfer y cwricwlwm newydd a b) eu bod yn gallu gwneud hynny ochr yn ochr â'u cydweithwyr ac o fewn cyd-destun eu hysgol eu hunain. Bydd angen dull mwy cydweithredol ar gyfer y cwricwlwm newydd o fewn ysgolion a rhwng ysgolion, ac mae'n hanfodol fod yr amser yn cael ei ddarparu." (Ymatebydd unigol)

Bydd o leiaf un diwrnod HMS ychwanegol yn helpu i sicrhau bod yr holl ysgolion yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd mewn modd cyson a bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfathrebu'n gyson. Gwnaeth yr ymatebwyr fynegi rhywfaint o bryder fod ysgolion ledled Cymru yn amrywio o ran eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd a'u gwaith paratoi ar ei gyfer. Bydd clustnodi amser ar ffurf diwrnod HMS yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn derbyn yr un negeseuon ar yr un pryd a sicrhau bod gan ysgolion ar draws clystyrau a chonsortia weledigaeth gyffredin. Gwelir bod caniatáu mynediad i wybodaeth ar yr un pryd ar gyfer yr holl ysgolion – yn hytrach na chael negeseuon allweddol yn rhaedru drwy'r ysgolion – yn hanfodol. **Yn yr un modd, byddai diwrnod(au) HMS ychwanegol yn sicrhau bod yr holl aelodau o staff yn cael eu hyfforddi yn gydamserol ac yn symud tuag at ddealltwriaeth gyffredin o'r cwricwlwm ar yr un pryd.**

"Mae tynnu ymarferwyr at ei gilydd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o egwyddorion allweddol y meysydd dysgu newydd yn allweddol i sicrhau eglurder a chysondeb ledled Cymru wrth gynllunio cwricwlwm arloesol." (Sefydliad haen ganol)

"Ar hyn o bryd, mae nifer o staff allweddol yn mynd allan i gyfarfodydd a chynadledau yn gyson ac yna'n gorfod rhaedru'r negeseuon pwysig nôl yn yr ysgol. Mae'n cael effaith ar gysondeb y dysgu yn y dosbarth ac mae prinder amser yn ystod y diwrnod ysgol i rhaedru nôl." (Ysgol neu ymarferydd)

Mae diwrnodau HMS presennol eisoes yn llawn hyd yr eithaf, felly bydd diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol i ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau'r cwricwlwm. Gwnaeth yr ymatebwyr adrodd bod diwrnodau HMS cyfredol eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer amrediad eang o flaenoriaethau gwella'r ysgol, i ledaenu strategaethau rhanbarthol, i gydweithio ar agweddau eraill o ddiwygio, ac i gyflwyno hyfforddiant statudol. **Yn benodol, mae ysgolion arbennig eisoes yn cael trafferth cymhwyso hyfforddiant statudol pwysig i ddiwrnodau HMS sy'n bodoli eisoes.** Gwelir bod angen ystyriaeth benodol ar gyfer ysgolion arbennig o ran diwrnodau HMS ychwanegol, gan eu bod yn wynebu heriau penodol o ran dod o hyd i amser ar gyfer hyfforddiant a dysgu proffesiynol pwysig.

"Mae angen i [Lywodraeth Cymru] fod yn ymwybodol o'r goblygiadau ar gyfer ysgolion arbennig. Mae'r amser ar gyfer cwricwlwm newydd eisoes wedi'i gyfyngu gan yr angen am hyfforddiant gorfodol arall - meddygol, codi a chario ac ati - ac mae'r holl hyfforddiant o'r fath

yn cael effaith ar y diwrnodau HMS. Felly pan fo'r holl ysgolion eraill yn gallu canolbwyntio ar y cwricwlwm/addysgeg, mae'n rhaid i ysgolion arbennig ystyried mwy o bethau." (Ysgol neu ymarferydd)

Gwnaeth yr ymatebwyr achub ar y cyfle hwn i awgrymu ffurfiau amgen ar gyfer cyflenwi diwrnodau HMS a/neu ddysgu proffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys darparu sesiynau fin nos a naill ai osgoi effeithio ar amser gwyliau ymarferwyr neu osgoi lleihau faint o amser mae dysgwyr yn ei dreulio yn yr ysgol.

Dylid gweld diwrnod HMS ychwanegol fel un elfen o fewn dull gwahanol i ddysgu proffesiynol, yn arbennig cyfleoedd cymorth ehangach. Gwnaeth yr ymatebwyr nodi'r angen am becyn cymorth gan sefydliadu haen ganol megis consortia, cyllid digonol ar gyfer hyfforddiant, diwygio amodau athrawon, a chyingor ar sut i wneud y defnydd gorau o ddiwrnodau HMS.

"Os yw'r newidiadau sylfaenol i'r weledigaeth ar gyfer addysg yn mynd i ddwyn ffrwyth, mae angen diwygio mwy sylfaenol o ran amodau athrawon. Bydd diwrnodau HMS ychwanegol yn helpu, ond maent yn ynysig a thros dro. Mae angen mwy o amser cynllunio, paratoi ac asesu ar athrawon, fel rhan o'u contract, er mwyn gwella'n barhaus, myfyrio a hunanwerthuso, a chynllunio ar gyfer cynnydd ac addysgeg. Efallai y byddai prynhawn, yn ychwanegol at y 10% o amser cynllunio, paratoi ac asesu sydd gennym ar hyn o bryd, at ddiben ymchwil a dysgu proffesiynol yn unig yn helpu." (Ysgol neu ymarferydd)

Mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryder fod gwybodaeth annigonol am y newidiadau cwricwlwm ac asesu wedi cael ei chyfathrebu. Gwelir bod hyn yn gwneud diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol, er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn deall cynnwys y cwricwlwm newydd, yn ogystal â mwy o eglurder ar elfennau penodol o'r diwygiadau (megis asesu).

Pwysleisiodd nifer bach o ymatebwyr y dylai'r amser a'r cymorth ychwanegol a ddarperir i ymarferwyr i weithredu'r cwricwlwm newydd gynnwys ymarferwyr yn y sector nas cynhelir.

"Rydym yn lleoliad nas cynhelir felly ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw ddiwrnodau HMS. Mae angen i ni gael ein trin yn yr un ffordd â meithrinfeydd a gynhelir. Rydym yn derbyn hyfforddiant eithriadol gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ond byddai'n llawer mwy buddiol i'r holl staff fynychu, fel y gellir ei roi ar waith yn fwy effeithiol." (Lleoliad blynyddoedd cynnar)

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn.

Nid yw diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol oherwydd y dylai gweithgareddau dysgu proffesiynol ddigwydd yn ystod y diwrnodau HMS presennol. Nododd yr ymatebwyr mai cyfrifoldeb yr ysgolion yw mabwysiadu dull strategol ar gyfer diwrnodau HMS, gan sicrhau bod ymateb i'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn flaenoriaeth graidd ar gyfer defnyddio'r diwrnodau HMS presennol.

"Dylai ysgolion fod wedi bod yn llunio cynlluniau datblygu strategol a fyddai'n cynnwys y defnydd priodol o'r pum diwrnod presennol i gynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Prin yw'r rheoleiddio ar gyfer y pum diwrnod hyn ac felly mae'r ansawdd ac effeithiolrwydd yn amrywio'n sylweddol." (Ymatebydd unigol)

Ar y llaw arall, nid yw diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol oherwydd y dylai ymarferwyr eisoes fod yn paratoi ar gyfer y trefniadau cwricwlwm newydd fel rhan o'u cyfrifoldebau addysgu craidd. Mae ymatebwyr yn teimlo bod ymarferwyr wedi bod yn ymwybodol o newidiadau cwricwlwm ac asesu am gyfnod o amser a dylent fod yn integreiddio cynllunio i'w cylchoedd cynllunio arferol.

Nid yw'r diwrnodau HMS presennol yn cael eu hystyried yn arbennig o effeithiol ac felly mae lle i ddatblygu ffocws cliriach ar ddatblygu'r cwricwlwm. Gwnaeth yr ymatebwyr adrodd nad yw pob un o'r pum diwrnod cyfredol yn cael eu defnyddio at y defnydd gorau ac felly dylai Llywodraeth Cymru ac ysgolion weithio i sicrhau bod amser HMS cyfredol yn cael ei ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r cwricwlwm.

Teimlai ymatebwyr hefyd fod mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol ac felly roeddent yn anghytuno â'r cwestiwn caeedig. Er bod yr ymatebwyr hyn yn anghytuno â'r cwestiwn, roeddent yn cytuno â'r syniad y byddai angen mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn (fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adran hon).

Byddai diwrnod HMS ychwanegol yn cael effaith negyddol ar rieni neu warcheidwaid ac ar addysg dysgwyr. Gwnaeth yr ymatebwyr adrodd y byddai diwrnod HMS ychwanegol yn gwaethgu'r baich a roddir eisoes ar rieni neu warcheidwaid sy'n gweithio, y mae angen iddynt wneud trefniadau gofal plant ar gyfer y diwrnodau hyn. Rhagwelwyd hefyd y byddai tynnu dysgwyr oddi wrth ddiwrnod ychwanegol o ysgol yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr, gan leihau ymhellach nifer y diwrnodau a ddyrannwyd i ddysgu yn yr ysgol ac achosi iddynt 'gollu' addysg.

"Fel rhiant sy'n gweithio mae'n frwydr wirioneddol i wneud trefniadau ar gyfer nifer y diwrnodau HMS cyfredol fel y mae. Y cyfan a ddywedir wrth y rhieni yw y dylent gynllunio ar gyfer y diwrnod HMS ychwanegol. Gwych, diolch am hynny, ond o ble mae'r teuluoedd sy'n gweithio yn cael y diwrnod ychwanegol? Mae'n hen bryd i Lywodraeth Cymru feddwl am y darlun ehangach a'r effaith ar rieni a'r sefydliadau y maent yn gweithio iddynt, nid dim ond yr athrawon a'r ysgolion. Rwyf o blaid caniatáu i'r athrawon gynllunio, ond nid ar draul incwm aelwydydd pobl pan fod yn rhaid cymryd gwyliau di-dâl neu dalu am gostau gofal plant ychwanegol." (Rhiant neu warcheidwad)

Y gwahaniaethau yn y themâu a godwyd amlaf gan y grwpiau poblogaeth gwahanol.

Mae ysgolion/ymarferwyr, undebau a sefydliadau haen ganol yn dueddol o dynnu sylw at themâu tebyg. Yn arbennig, roedd y grwpiau poblogaeth hyn yn dueddol o dynnu sylw at sicrhau bod yr holl ysgolion a staff yn paratoi mewn modd cyson; na fydd un diwrnod HMS ychwanegol yn ddigonol; a gallai cymhlethdod a graddfa'r diwygio gael effaith negyddol ar lwythi gwaith ymarferwyr o fewn diwrnodau HMS ychwanegol.

Roedd ysgolion/ymarferwyr rywfaint yn fwy tebygol o dynnu sylw ar yr amser angenrheidiol at ddibenion cynllunio, megis datblygu cynlluniau gwaith; yn fwy tebygol o dynnu sylw at yr angen i ddefnyddio diwrnodau HMS ar gyfer cydweithio rhwng ymarferwyr ac ar draws clystyrau; ac yn fwy tebygol o bwysleisio gwerth diwrnodau HMS o ran caniatáu i ymarferwyr ddechrau deall cynnwys y cwricwlwm. Gwnaeth ysgolion arbennig dynnu sylw penodol at yr heriau maent yn eu hwynebu o ran ymgymryd â hyfforddiant statudol o fewn diwrnodau HMS ac, yn unol â hynny, eu gofyniad arbennig am amser HMS ychwanegol.

Roedd y nifer bach o rieni neu warcheidwaid a ddynodwyd rywfaint yn fwy tebygol o fynegi pryder am effaith diwrnod HMS ychwanegol ar eu bywyd gwaith neu drefniadau

gofal plant, neu'n mynegi diffyg dealltwriaeth o sut mae diwrnodau HMS presennol yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, gwnaeth nifer bach o ysgolion/ymarferwyr hefyd sylw am yr angen i osgoi gosod baich ychwanegol ar rieni neu warcheidwaid.


Dadansoddiad o Gwestiwn 2

Cynigir cyflwyno un diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn am y tair blynedd uchod. Bydd y diwrnod hwn yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol i helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Awgrymir y bydd hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng cymorth ac amser ychwanegol a faint o amser y mae disgyblion yn yr ysgol.

Ydych chi'n credu y bydd un diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn am dair blynedd yn adnodd ychwanegol digonol i helpu i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd?

Mewn cwestiwn caeedig, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r ffigur isod yn cyflwyno'r canlyniadau: roedd 11% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn, nid oedd 11% naill ai'n cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 78% yn anghytuno.

Ffigur 2: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno y byddai un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn adnodd ychwanegol digonol (n = 628).



Gwnaed 631 o sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno â'r cwestiwn, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn.

Mae un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn gynnig defnyddiol gan ei fod yn hanfodol fod ymarferwyr yn cael amser i baratoi a datblygu eu harferion addysgu. Dywedodd yr ymatebwyr hyn y byddai darparu diwrnod HMS ychwanegol yn ffordd werthfawr o sicrhau bod gan ymarferwyr amser ychwanegol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Byddai diwrnod ychwanegol yn ategu'r amser sydd eisoes ar gael i ymarferwyr o fewn diwrnodau HMS presennol. Dylid annog ysgolion i ddefnyddio'r diwrnod ychwanegol hwn fel sylfaen i adeiladu arni eu dull ehangach ar gyfer y cwricwlwm a dysgu proffesiynol.

"Mae hwn yn ychwanegiad i'w groesawu ac yn gydbwysedd derbyniol rhwng yr angen am fuddsoddiad pellach mewn dysgu proffesiynol gyda'r tarfu lleiaf ar ddisgyblion, teuluoedd a'r flwyddyn ysgol yn gyffredinol." (Ymatebydd unigol)

"O ran mynd i'r afael â'r cwricwlwm newydd, mae'r tridiau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod holl agweddau ar y cwricwlwm yn cael eu cyflwyno'n gymwys. Bydd angen amser arni i ddeall gofynion yr athrawon, yr adnoddau wedi'u trefnu y bydd angen iddynt fod ar gael, ac i addasu a datblygu gwaith cynllunio." (Ysgol neu ymarferydd)

Dylai'r pum diwrnod HMS presennol ddarparu amser digonol i ymateb i'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd. Nododd yr ymatebwyr y dylai ymateb i'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd fod yn flaenoriaeth ar lefel ysgol ac felly y dylai'r cyfleoedd dysgu proffesiynol presennol (gan gynnwys diwrnodau HMS) gael eu teilwra tuag at y flaenoriaeth newydd hon. Roedd ymatebwyr yn teimlo mai cyfrifoldeb arweinwyr ysgolion oedd sicrhau bod amser yn cael ei ddyrannu i sgysiau proffesiynol angenrheidiol fel rhan o flaenoriaethau gwella ysgolion.

"Pe bai angen amser ychwanegol ar ysgolion i ganolbwyntio ar ddiwygio, gellid dod o hyd iddo o fewn y ffenestr sy'n weddill o'r pum diwrnod HMS, heb beryglu gwaith ysgolion ar flaenoriaethau eraill." (Sefydliad haen ganol)

Byddai dau ddiwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn cael ei ffafrio. Er bod ymatebwyr yn cydnabod bod unrhyw amser dysgu proffesiynol ychwanegol ar ffurf diwrnod HMS pwrpasol yn werthfawr, gwnaethant ofyn a fyddai dau ddiwrnod HMS ychwanegol yn bosibl. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai ymarferwyr yn gwerthfawrogi dau ddiwrnod HMS ychwanegol ac y byddai hyn yn cyd-fynd â chymhlethdod y diwygiadau.

"Ydw, rwyf yn cytuno ond credaf y byddai dau ddiwrnod (fel y cytunwyd yn flaenorol yn y gorffennol ar gyfer gweithgareddau pontio) yn well byth." (Ysgol neu ymarferydd)

Pwysleisiodd nifer bach o ymatebwyr themâu ychwanegol, gan gynnwys yr isod:

- Dylai'r diwrnod HMS ychwanegol hwn gael ei ystyried fel rhan o ddull parhaus, ehangach o ddysgu proffesiynol.
- Mae'r diwrnod HMS ychwanegol hwn yn angenrheidiol yn sgil cymhlethdod a graddfa'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.
- Byddai mwy nag un diwrnod y flwyddyn yn cael ei ffafrio, ond nid yw'r ymatebwyr yn nodi sawl un.
- Mae'r diwrnod HMS ychwanegol hwn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i ymarferwyr gydweithio.
- Byddai'n anodd i rieni sy'n gweithio ymdopi â mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol.
- Bydd cymorth dysgu proffesiynol ychwanegol i ysgolion gan bartneriaid addysg ehangach, megis consortia addysg rhanbarthol.

"Bydd consortia rhanbarthol hefyd yn cefnogi ysgolion i edrych ar fodolau eraill o gyflenwi dysgu proffesiynol sydd y tu allan i'r pum diwrnod traddodiadol, e.e. ymholiadau gan ymarferwyr unigol, ymholiadau cydweithredol, naill ai mewn triadau/adrannau neu ar draws grwpiau maes dysgu a phrofiad." (Sefydliad haen ganol)

Ymhlith y rhai nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn.

Mae p'un ai bod un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn ddigonol yn dibynnu ar y pecyn cymorth cyfan a fydd ar gael i ysgolion. Dywedodd yr ymatebwyr fod un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn yn annhebygol o fod yn ddigonol oni bai fod system ehangach o ddysgu proffesiynol a chymorth gan bartneriaid addysgol ar waith. Gallai un diwrnod HMS ychwanegol fod yn dderbyniol os yw ymateb i'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd yn dod yn flaenoriaeth ehangach ar gyfer y prosesau dysgu proffesiynol yn yr ysgol ac ar lefel ranbarthol.

"Os dyma'r unig amser mae ysgolion yn mynd i'w ddyrannu ar gyfer y cwricwlwm newydd yna mae'n glir nad yw hynny'n ddigon. Fodd bynnag, os yw'r cynnwys yn cael ei ddarparu gan [Lywodraeth Cymru] yna dylai ategu'r hyn mae'r ysgol yn ei wneud ar hyn o bryd er mwyn ymgorffori ac atgyfnerthu'r hyn sydd eisoes yn digwydd a sicrhau nad oes yr un ysgol yn syrthio y tu ôl." (Sefydliad haen ganol)

Gwnaeth yr ymatebwyr adrodd nad oeddent yn teimlo eu bod yn ddigon gwybodus i ymateb i'r cwestiwn a/neu eu bod yn ansicr ar hyn o bryd am nifer y diwrnodau HMS ychwanegol sydd fwyaf addas. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo mai prin oedd y wybodaeth oedd ganddynt am fanylion y cwricwlwm newydd a/neu roeddent yn teimlo'n ansicr ynglŷn â faint o amser dysgu proffesiynol fyddai'n ofynnol cyn dechrau datblygu eu cwricwlwm ar lefel ysgol.

"Tan inni weld cynnwys terfynol y cwricwlwm, mae'n anodd barnu. Credaf nad yw un diwrnod yn y flwyddyn gyntaf yn ddigon, er y dylai hwn fod yn ddigon yn ystod y blynyddoedd dilynol oherwydd y dylai fod yn fwy o fater fireinio yn hytrach na chreu a threfnu o'r dechrau'n deg." (Ysgol neu ymarferydd)

Gwnaeth yr ymatebwyr sylw ar yr angen i sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng diwrnodau HMS ychwanegol a'r baich a roddir ar rieni neu warcheidwaid sy'n gweithio. Er bod ymatebwyr wedi dweud y byddai mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol yn cael ei ffafrio ac efallai'n angenrheidiol, roeddent hefyd yn cydnabod y byddai diwrnodau ychwanegol yn gallu cael effaith negyddol ar rieni neu warcheidwaid sy'n gweithio a faint o amser mae plant yn treulio yn yr ysgol yn dysgu.

"Mae'n debygol y bydd mwy o amser yn ofynnol er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, byddai'n annheg cymryd profiadau dysgu ac addysgu gwerthfawr i ffwrdd oddi wrth ddosbarthiadau sydd eu hangen, yn arbennig dosbarthiadau arholiadau allweddol." (Ysgol neu ymarferydd)

Gellir rhannu'r sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn ddau gategori bras, sef:

1. Sylwadau yn esbonio pam fod mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn angenrheidiol.
2. Sylwadau yn awgrymu nifer diwrnodau gwahanol a modelau cyflenwi eraill.

1.

Gwnaeth ymatebwyr ailbwysleisio bod mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol oherwydd bod y cwricwlwm newydd yn ddiwygiad cymhleth ac ar raddfa fawr, a fydd yn ychwanegu'n sylweddol at y llwythi gwaith trwm sydd gan ymarferwyr

eisoes. Mae'r thema hon yn adleisio sylwadau a wnaed eisoes gan ymatebion i Gwestiwn 1 yr ymgynghoriad hwn. Nododd yr ymatebwyr fod angen gwaith sylweddol i ail-drefnu'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd o ran arferion addysgu a ffyrdd o feddwl. Gwelir bod y llwyth gwaith cyfredol sydd gan ymarferwyr yn ormodol a bydd y llwyth gwaith hwn yn cael ei gynyddu dros y blynyddoedd i ddod wrth i ymarferwyr ymateb i'r trefniadau newydd.

"Mae athrawon o dan lawer o bwysau i ddarparu addysgu rhagorol i garfannau cyfredol, wrth fewnbynnu hefyd i'r cwricwlwm newydd a pharatoi i'w gyflenwi, ymgorffori safonau proffesiynol newydd, cyfrannu at ysgolion fel sefydliadau dysgu, mynd â'r arferion gorau i ysgolion eraill, a gweithio gydag ysgolion eraill i ddysgu oddi wrthynt, yn ogystal â chwarae rhan lawn yng ngwaith hunanwerthuso eu hysgol a'i phroses cynllun datblygu ysgol, ac mae athrawon da yn gadael y proffesiwn oherwydd hyn. Mae arnynt angen mwy o amser nid bob blwyddyn yn unig i fyfyrion ar yr holl fentrau newydd sydd ar y gweill iddynt." (Ysgol neu ymarferydd)

Felly, nododd ymatebwyr fod angen gymaint o amser â phosibl i ganiatáu i ymarferwyr amsugno, dehongli a myfyrio ar y newidiadau i'r cwricwlwm ac asesu. Gwelir bod y cwricwlwm newydd yn cynnwys amrywiaeth o themâu a sgiliau cymhleth, a fydd yn cymryd gryn dipyn o amser i ymarferwyr eu llawn amgyffred. Mae gweithredu'r cwricwlwm newydd hyd eithaf eu gallu yn ei gwneud yn angenrheidiol i ymarferwyr gael amser penodol i ddeall pob elfen (megis pob maes dysgu a phrofiad, camau cynnydd, Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, a gweithio trawsffiniol) a throsglwyddo'r elfennau hyn i gwricwlwm ac addysgeg ymarferol.

"Fel Ysgol Arloesi, rydym wedi byw ac anadlu datblygiad y cwricwlwm newydd o'i ddechreuad ac mae angen gymaint o amser â phosibl ar ysgolion i fynd ar y daith rydyn ni wedi bod arni o ran dygymod â dogfennau a newid eu ffordd o feddwl ac arferion dros amser. Mae gymaint o ddysgu proffesiynol â phosibl ar gyfer hyn yn hanfodol, gyda'r dysgu proffesiynol a roddir yn bwrpasol ac yn gyson ar draws y genedl." (Ysgol neu ymarferydd)

"Yn dilyn y weledigaeth o ran faint o amser ac arian a roddwyd ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm newydd, drwy'r Ysgolion Arloesi a chyfranogwyr a phartneriaid eraill, a rhoi'r un gwerth drwy ddarparu amser i ysgolion i wneud i hyn weithio'n gywir. Fel arall, bydd gennym gymaint o staff y tu allan i'r dosbarth yn gyson fel bo'r disgyblion yn dioddef." (Ysgol neu ymarferydd)

Gan fod y cwricwlwm newydd yn gosod gymaint o bwyslais ar gydweithio, bydd mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i ymarferwyr ddod ynghyd i gyd-ddylunio elfennau o'r cwricwlwm a rhannu arferion da. Cydnabyddir bod gweithio ar draws pynciau ar draws Cyfnodau Allweddol yn egwyddor graidd sy'n sail i'r cwricwlwm newydd. Er bod rhywfaint o gynllunio a dysgu proffesiynol yn gallu cael eu gwneud yn ystod cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu neu debyg, mae dylunio gweledigaeth a chwricwlwm ysgol gyfan yn broses gydweithredol. Gwnaeth ymatebwyr bwysleisio y bydd angen amser penodol gyda'i gilydd ar yr holl ymarferwyr i ddatblygu eu gweledigaeth a chwricwlwm, gan sicrhau dull cydlynol i addysgeg a chynnwys y cwricwlwm ar draws yr ysgol. Yn yr un modd, mae angen diwrnodau neilltuedig ar ysgolion i gydweithio a rhannu arferion da gydag ysgolion eraill yn eu clystyrrau; gwelir bod hon yn elfen allweddol o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn gyson ledled Cymru.

"Mae arloesedd a chreadigrwydd yn deillio o gynllunio cydweithredol a rhannu syniadau ar draws ysgol gyfan. Nid yw hynny'n digwydd mewn diwrnod. Mae angen caniatáu amser ar

gyfer cynllunio Cyfnodau Allweddol yn ogystal â chynllunio ysgol gyfan." (Ysgol neu ymarferydd)

Gwnaeth yr ymatebwyr ailbwybleisio bod diwrnodau HMS presennol eisoes yn hollol lawn ac felly bydd mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol er mwyn canolbwyntio'n benodol ar drefniadau cwricwlwm. Gwelir bod yr holl amser hyfforddiant mewn ysgolion eisoes yn llawn, yn sgil nifer mawr y cyrsiau hyfforddiant gorfodol a gwerthfawr iawn (yn arbennig y rhai sy'n canolbwyntio ar lesiant plant). Mae amrediad eang o weithgareddau yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd yn ystod y pum diwrnod HMS presennol a phrin yw'r gweithgareddau hyn y gellir eu haddasu neu eu gwaredu er mwyn rhyddhau amser i weithio ar drefniadau cwricwlwm ac asesu newydd; mae'r holl weithgareddau presennol yn flaenoriaethau pwysig ar lefel yr ysgol.

"Wrth ystyried y meysydd hyfforddiant blynyddol hanfodol a gwblheir ar hyn o bryd gan yr holl ysgolion, sef diogelu ac amddiffyn plant, iechyd a diogelwch (asesu risg), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), prosesau asesu/safoni, hunanwerthuso, a gwella ysgolion, mae'n glir fod y diwrnodau HMS presennol yn hanfodol ac wedi'u gorymestyn."
(Undeb)

2.

Dyweddodd tua thraean o ymatebwyr fod un diwrnod HMS ychwanegol am dair blynedd yn annigonol ond ni wnaethant nodi faint o amser ychwanegol a fyddai'n angenrheidiol. Gan fynegi un neu fwy o'r rhesymau a drafodwyd uchod, nododd ymatebwyr fod un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn annigonol. Gwnaethant nodi bod yn rhaid darparu llawer mwy o amser (mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol megis diwrnodau HMS, amser cynllunio, paratoi ac asesu, a gweithgareddau dysgu proffesiynol ehangach) er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu gweithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol. Ni wnaeth yr ymatebwyr hyn nodi faint o amser ychwanegol fyddai ei angen ond fe'u gwnaethant yn glir eu bod yn teimlo bod un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn yn annigonol.

"Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei 'adeiladu gan athrawon' - os yw hynny'n digwydd, mae angen inni gael yr amser i wneud hynny a'i wneud yn llwyddiannus. Ni ellir gwneud hyn mewn diwrnod." (Ysgol neu ymarferydd)

Dyweddodd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr y byddai naill ai dau neu dri diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol (gyda chyfran uwch yn ffafrio dau ddiwrnod ychwanegol). Dywedodd yr ymatebwyr y byddai dau neu dri diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn (yn hytrach nag un) yn caniatáu o leiaf rhywfaint o'r amser gofynnol i ymarferwyr gynllunio, cydweithio, dechrau gweithredu ac adolygu'r trefniadau cwricwlwm newydd. Gwelir bod diwrnodau pwrpasol a neilltuwyd drwy gydol y flwyddyn yn angenrheidiol i sicrhau bod ymarferwyr yn adolygu ac yn gwerthuso gwaith i weithredu'r cwricwlwm newydd yn gyson. Roedd yr ymatebwyr a awgrymodd ddau ddiwrnod ychwanegol yn dueddol o bwysleisio'r angen am un diwrnod ychwanegol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac ail ddiwrnod yn ddiweddarach i adolygu'r cynnydd. Roedd yr ymatebwyr a awgrymodd dri diwrnod ychwanegol yn dueddol o bwysleisio'r angen am un diwrnod ychwanegol bob tymor.

"Byddai dau ddiwrnod ychwanegol y flwyddyn yn ddefnyddiol. Un ar y dechrau ar gyfer cynllunio - mae gweithio ar gynllunio gwella ysgol ar gyfer y cwricwlwm newydd fel ysgol gyfan yn allweddol. Byddai diwrnod ychwanegol (oddeutu tymor yr haf) yn ddefnyddiol fel sesiwn werthuso a chynllunio pellach fel staff ysgol gyfan." (Ysgol neu ymarferydd)

"Credaf fod angen un diwrnod ar ddechrau'r flwyddyn, ar ddiwedd tymor yr hydref ac ar ddiwedd tymor y gwanwyn er mwyn: cynllunio, datblygu, gwerthuso." (Ysgol neu ymarferydd)

Gwnaeth nifer bach o ymatebwyr argymell y caiff nifer uwch o ddiwrnodau HMS ychwanegol eu darparu yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan leihau o flwyddyn i flwyddyn wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod rhinwedd o ran cynnig nifer uwch o ddiwrnodau HMS yn ystod 2019/20 i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu buddsoddi'n ddigonol o ran paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yna gallai nifer y diwrnodau HMS ychwanegol gael ei leihau'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, wrth i ymarferwyr fagu hyder o ran gweithredu'r cwricwlwm newydd a'u bod yn gallu defnyddio'r diwrnod(au) HMS ychwanegol ar gyfer adolygu a gwerthuso. Er enghraifft, mae rhai ymatebwyr yn argymell y gellid darparu tri diwrnod HMS ychwanegol yn ystod 2019/20, dau yn 2020/21 ac un yn 2021/22.

"Credwn fod angen cymorth pellach, ond gallai fod yn fwy priodol cael mwy o ddiwrnodau ar ddechrau'r broses ac yna adolygu'r nifer wrth i ymarferwyr feithrin eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd." (Sefydliad haen ganol)

Gwnaeth nifer bach o ymatebwyr hefyd esbonio y dylai un diwrnod HMS ychwanegol gael ei ystyried fel rhan o raglen dysgu proffesiynol ehangach barhaus yn unig. Gwelir bod un diwrnod HMS ychwanegol (neu fwy nag un) yn un elfen o'r dull dysgu proffesiynol yr oedd ei angen er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol. Mae angen i sgysiau proffesiynol, amser cynllunio, paratoi ac asesu, a blaenoriaethau cynllunio ar lefel ysgol gael eu teilwra o amgylch y gofynion cwricwlwm newydd. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd rheolaidd i staff ar gyfer hyfforddiant a gwerthuso ychwanegol drwy gydol y flwyddyn, gan neilltuo amser pan fo'n bosibl. Mae hyn yn cael ei weld fel yr unig ffordd i sicrhau y gall ymarferwyr gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd a'i weithredu heb lwyth gwaith ychwanegol gormodol.

"[Nid ydym] yn credu y bydd un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn ddigonol i helpu paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd ... [Rydym wedi] ymgyrchu ers sawl blwyddyn am gynnydd yn yr amser cynllunio, paratoi ac asesu a roddir i athrawon. Ar hyn o bryd, mae hyn yn 10% o amser dysgu athro a amserlennwyd.[Rydym yn credu] y dylai athrawon gael 20% o amser cynllunio, paratoi ac asesu wrth arwain at ac yn ystod blynyddoedd cynnar cyflwyno'r cwricwlwm newydd.Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi'n ddigonol ac yn briodol." (Undeb)

"Os yw'r newidiadau sylfaenol i'r weledigaeth ar gyfer addysg yn mynd i ddwyn ffrwyth, mae angen diwygio mwy sylfaenol o ran amodau athrawon. Bydd diwrnodau HMS ychwanegol yn helpu, ond maent yn ddiwrnodau ynysig a dros dro. Mae angen mwy o amser cynllunio, paratoi ac asesu ar athrawon, fel rhan o'u contract, er mwyn gwella, myfyrio a hunanwerthuso'n barhaus a chynllunio ar gyfer cynnydd ac addysgeg." (Ysgol neu ymarferydd)

Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr hefyd y gellid darparu'r diwrnodau HMS presennol a newydd fel bloc dwys, er mwyn lleihau'r tarfiad. Yn hytrach na darparu diwrnodau HMS ychwanegol drwy gydol y flwyddyn, awgrymodd rhai ymatebwyr ddarparu diwrnodau HMS fel bloc dwys (er enghraifft, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) i ddarparu amser digonol i ymarferwyr ddatblygu cynlluniau digonol. Byddai strwythur dwys o'r fath hefyd yn caniatáu

ymdrech wedi'i chanolbwyntio i gydweithio a datblygu gweledigaeth drosfwaol ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol.

Nodweddion cyffredin ar draws yr holl ymatebion (cytuno, anghytuno, neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno)

Mae angen sicrhau bod yr ysgolion yn ystyried yn ofalus sut i wneud y defnydd gorau o'r diwrnodau HMS presennol ac ychwanegol i ymateb yn effeithiol i drefniadau cwricwlwm ac asesu newydd. Ni waeth p'un ai bod diwrnod HMS ychwanegol (neu nifer uwch) yn cael ei ddarparu ai peidio, pwysleisiodd yr ymatebwyr y bydd angen i'r holl ddiwrnodau HMS gael eu defnyddio'n effeithiol iawn i ymateb i'r gofynion cwricwlwm ac asesu newydd. Bydd angen i arweinwyr ysgol sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer yr holl weithgareddau gwella ysgol a gyflawnir fel rhan o ddiwrnodau HMS. Gallai hyn gynnwys sefydliadau haen ganol, undebau a/neu Lywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion gydag arweiniad ar gynnwys effeithiol (gweler y dadansoddiad o Gwestiwn 5 yn yr ymgynghoriad isod). Dywedodd yr ymarferwyr y dylai'r holl ddiwrnodau HMS gael eu defnyddio i ychwanegu gwerth at weithgareddau dysgu proffesiynol ehangach, yn canolbwyntio ar y cwricwlwm newydd.

"Mae lle i adolygu'r trefniadau arfaethedig ar ôl y flwyddyn gyntaf i werthuso a yw'r diwrnod HMS ychwanegol yn ddigonol. Bwriedir i'r diwrnod HMS ychwanegol hwn ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd yn hanfodol cael canllawiau clir ar y canlyniadau bwriadedig a ddisgwylir. Bydd canllawiau clir i helpu ysgolion i fonitro a gwerthuso effaith y diwrnod HMS ychwanegol ar berfformiad disgyblion yn hanfodol. Un o'r heriau i ysgolion fydd sut y mae'r diwrnod HMS hwn yn cysylltu'n agos â dysgu proffesiynol arall o fewn yr ysgol." (Sefydliad haen ganol)

Er bod un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn ddechreubwynt da, gallai fod amgylchiadau pan fo mwy yn angenrheidiol. 00103Mae ymatebwyr yn nodi, er y byddai un diwrnod HMS ychwanegol yn werthfawr, fod materion penodol y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar swm priodol o amser ychwanegol i'w ddyrannu. Mae ysgolion ar bwyntiau gwahanol o ran eu teithiau datblygu'r cwricwlwm a gallai fod angen arnynt lefelau gwahanol o weithgareddau dysgu proffesiynol. Gallai hefyd fod yn angenrheidiol ailystyried nifer y diwrnodau HMS angenrheidiol dros y blynyddoedd, wrth i ymarferwyr ymgylfarwyddo â'r cwricwlwm ac asesu'r swm priodol o amser ychwanegol penodol sy'n ofynnol ar gyfer cyflenwi'n effeithiol. Roedd nifer bach o ymatebwyr yn ansicr a fyddai mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol yn angenrheidiol ond roeddent yn teimlo ei fod yn opsiwn y dylid ei archwilio.

"Mae wir yn dibynnu ar safle a pharodrwydd yr ysgol ar gyfer y cwricwlwm newydd, set sgiliau'r holl staff, a'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael i ymbaratoi aelodau o staff." (Ysgol neu ymarferydd)

Gan gadw hyn mewn cof, bydd angen i ysgolion gael cymorth ac arweiniad gan sefydliadau haen ganol fel rhan o broses i sicrhau bod paratodau ar lefel yr ysgol yn mynd rhagddynt yn dda. Dywedodd ymatebwyr fod angen i becyn cymorth fod ar gael i sicrhau nad yw ysgolion yn brwydro gyda chapasiti dysgu proffesiynol ac i sicrhau bod lefel o gysondeb ar draws ysgolion gwahanol. Mae enghreifftiau o gymorth posibl yn cynnwys canllawiau ac adnoddau gan gonsortia addysg rhanbarthol ar gynnwys y cwricwlwm ac egwyddorion addysgeg allweddol.

"Byddai consortia rhanbarthol yn gweithio gydag Ysgolion Arloesi i ddatblygu cyfres o adnoddau/dulliau dewis a dethol i gefnogi ymgysylltu'r ysgol ag agweddau allweddol o'r cwricwlwm newydd, e.e. yr wybodaeth am gynnwys addysgeg sy'n ofynnol ar gyfer meysydd dysgu a phrofiad penodol. Gellid datblygu bwydlen o gymorth er mwyn cefnogi'r amcan hwn." (Sefydliad haen ganol)

Y gwahaniaethau yn y themâu a godwyd amlaf gan y grwpiau poblogaeth gwahanol.

Roedd ysgolion/ymarferwyr, sefydliadau haen ganol ac undebau yn dueddol o adlewyrchu themâu allweddol tebyg. Yn arbennig, roedd y grwpiau poblogaeth hyn yn dueddol o wneud yr isod: pwysleisio'r ffaith y byddai mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn angenrheidiol ond nid oeddent yn nodi faint yn fwy o amser fyddai'n angenrheidiol; roeddent yn dueddol hefyd o bwysleisio'r baich y bydd cymhlethdod a graddfa diwygio'r cwricwlwm yn ei osod ar ymarferwyr; roeddent i gyd yn dueddol o ofyn am ddau neu dri diwrnod ychwanegol y flwyddyn (er bod ysgolion/ymarferwyr ychydig yn fwy tueddol o ofyn am dri diwrnod ychwanegol).

Roedd ysgolion/ymarferwyr rywfaint yn fwy tebygol o bwysleisio'r mathau o dasgau y mae'r diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol ar eu cyfer, yn arbennig cydweithio ag ymarferwyr eraill ac amsugno a myfyrio ar y cwricwlwm newydd. **Roedd sefydliadau haen ganol ac undebau rywfaint yn fwy tebygol o drafod y diwrnod HMS ychwanegol fel rhan o becyn ehangach o gyfleoedd dysgu proffesiynol gofynnol a chymorth neu ganllawiau gan randdeiliad addysgol eraill.**

Roedd sylwadau annigonol gan rieni neu warcheidwaid dynodedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn i lunio unrhyw gasgliadau ynglŷn â safbwyntiau'r grŵp poblogaeth hwn yn benodol. Roedd yr ymatebwyr prin y gellid eu hadnabod fel rhieni neu warcheidwaid yn dueddol o fod yn ansicr a fyddai diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol neu'n ychwanegu unrhyw werth.

Dadansoddiad o Gwestiwn 3

Rydym yn credu bod y tair blynedd hyn yn gyfnod allweddol ar gyfer ymgysylltu a pharatoi cyn mynd ati i gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion trwy gyhoeddi'r cwricwlwm drafft yn 2019 a'r cwricwlwm terfynol yn 2020 a dechrau ar y broses gyflwyno statudol o 2022 ymlaen.

Am sawl blwyddyn dylai'r diwrnodau HMS ychwanegol fod ar gael?

Darparwyd 866 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

O'r rhain, roedd 623 o sylwadau yn nodi am sawl blwyddyn ychwanegol y dylai'r diwrnodau HMS fod ar gael. Mae'r tabl isod yn cyflwyno nifer yr ymatebwyr a awgrymodd bob cyfnod amser a'u cyfrannau.

Tabl 1: Nifer y blynyddoedd y gwnaeth yr ymatebwyr adrodd y dylai'r diwrnodau HMS ychwanegol fod ar gael ar eu cyfer

Nifer y blynyddoedd	Nifer yr ymatebwyr	Canran yr ymatebwyr
1	1	0.2%
2	15	2.4%
O leiaf 2	3	0.5%
3	221	35.5%
O leiaf 3	81	13.0%
2 i 3	2	0.3%
4	43	6.9%
O leiaf 4	7	1.1%
3 i 4	5	0.8%
5	163	26.2%
O leiaf 5	34	5.5%
2 i 5	1	0.2%
3 i 5	12	1.9%
4 i 5	5	0.8%
6	14	2.2%
O leiaf 6	4	0.6%
7	6	1.0%
O leiaf 7	4	0.6%
O leiaf 10	2	0.3%
<i>Cyfanswm</i>	623	

Fel y gwelir o'r tabl uchod, **y duedd oedd i'r rhan fwyaf o ymatebwyr deimlo y dylai'r diwrnodau HMS ychwanegol fod ar gael am gyfnod o oddeutu tair i bum mlynedd**. Fodd bynnag, mae'r tabl hefyd yn dangos amrywiad mewn safbwyntiau o ran nifer y blynyddoedd sydd fwyaf priodol, gydag oddeutu chwarter o'r ymatebwyr yn nodi cyfnod (e.e. dau i dair blynedd) neu ddim yn nodi uchafswm (e.e. o leiaf dair blynedd).

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno bod diwrnodau HMS ychwanegol am dair blynedd yn briodol yn dueddol o ddweud ei fod yn rhesymol cynnig diwrnodau ychwanegol hyd at y gweithrediad statudol o'r cwricwlwm. Erbyn 2022, roedd yr

ymatebwyr yn teimlo y dylai'r ysgolion fod mewn sefyllfa i weithredu'r trefniadau newydd. Ar y pwynt hwn, dylai'r nifer priodol o ddiwrnodau HMS wrth symud ymlaen gael ei adolygu. O dro i dro, roedd yr ymatebwyr hyn yn dweud y byddai cynnig nifer uwch o ddiwrnodau HMS y flwyddyn am dair blynedd yn fwy buddiol nag ymestyn nifer y blynyddoedd; byddai hyn yn caniatáu i ymarferwyr fuddsoddi eu hamser yn llawn wrth baratoi ar gyfer gweithredu. Dylai gweithgareddau dysgu proffesiynol ychwanegol ddarparu pecyn cymorth mwy cydlynol o amgylch y diwrnodau HMS yn ystod y tair blynedd gyntaf.

"Mae tair blynedd yn ymddangos yn rhesymol ond, unwaith eto, mae angen iddo gael ei ategu gan ddefnydd yr ysgol o ddiwrnodau HMS eraill a'u defnydd o gyfarfodydd staff drwy gydol y flwyddyn. Bydd gwybodaeth werthfawr a roddir i ysgolion ac awdurdodau lleol mewn ffordd amserol hefyd yn cynorthwyo'r broses." (Sefydliad haen ganol)

Fodd bynnag, roedd ymatebwyr a oedd yn teimlo y dylai diwrnodau HMS ychwanegol fod ar gael am o leiaf dair blynedd neu hyd at bum mlynedd yn pwysleisio y byddai tair blynedd ond yn cefnogi ymarferwyr hyd at gyflwyniad statudol y cwricwlwm. Bydd blynyddoedd ychwanegol o gymorth yn angenrheidiol yn ystod blynyddoedd cynnar y cwricwlwm newydd, gan ganiatáu i athrawon ymgyswyo â chyflenwi ac adolygu addasrwydd y trefniadau newydd. Bydd caniatáu diwrnodau HMS ychwanegol am hyd at bum mlynedd yn caniatáu i ymarferwyr werthuso cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn gynnar a sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm a'r addysgeg yn briodol ar gyfer yr holl Gyfnodau Allweddol.

"O siarad ag Ysgolion Arloesi sydd wedi mabwysiadu dull 'o fath Donaldson' dros y ddeng mlynedd diwethaf, maent yn dal i ddiweddarau/gwella'r ffordd y maent yn cyflwyno hwn o dymor i dymor. Felly, rwyf yn credu bod o leiaf un diwrnod HMS ychwanegol yn ofynnol am y blynyddoedd ar ôl 2022." (Ymatebydd unigol)

Mae sylwadau ychwanegol gan 370 o ymatebwyr yn rhoi mwy o fewnwelediad i'r ystyriaethau allweddol y dylid eu pwysu a'u mesur i lywio'r hyd priodol o amser. Roedd y sylwadau hyn yn codi'r meini prawf allweddol y dylid eu defnyddio i benderfynu ar y nifer priodol o flynyddoedd.

Dylid darparu diwrnodau HMS ychwanegol tan fod y cwricwlwm newydd wedi'i weithredu'n llawn. Mae'r ymatebion yn amrywio o ran eu diffiniad o 'weithredu'n llawn'. Nid yw rhai ymatebwyr yn rhoi diffiniad, gan nodi y bydd diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol tan fod holl elfennau'r cwricwlwm newydd ar waith. Mae eraill yn nodi y bydd diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol tan fod carfan lawn o bobl ifanc wedi symud drwy Gyfnod Allweddol 4 ac wedi sefyll arholiadau allweddol. Mae eraill yn nodi y bydd diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol tan fod y cwricwlwm wedi'i gyflwyno *"ar draws pob grŵp blwyddyn"* a/neu'n cael ei gyflwyno'n rhwydd ar draws y grwpiau blwyddyn.

"Tan fod y cwricwlwm newydd ar waith ac mae'r athrawon yn hyderus ag ef." (Ymatebydd unigol)

Dylai'r diwrnodau HMS ychwanegol gael eu darparu'n ddigon hir i ymarferwyr adolygu, myfyrio ar a gwerthuso'r trefniadau cwricwlwm newydd. Tybir bod y diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol ar gyfer mwy na chynllunio a gweithredu'r cwricwlwm newydd yn unig. Dywedodd yr ymatebwyr y dylai'r diwrnodau HMS gael eu defnyddio yn ystod y blynyddoedd i ddod i sicrhau effeithiolrwydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd, gan ddarparu cyfle strwythuredig i ymarferwyr werthuso'r newidiadau sylweddol a fydd wedi digwydd. Nid yw datblygu'r cwricwlwm yn cael ei weld fel tasg tymor byr, ond yn hytrach yn broses sy'n golygu mireinio, adolygu a gwella hirdymor. Felly dywedodd yr ymatebwyr y dylai diwrnodau

HMS ychwanegol gael eu darparu am ddigon o flynyddoedd i ganiatáu amser i ymarferwyr weld effaith eu haddysgeg a chwricwlwm newydd ar ddysgwyr.

"Byddwn i'n meddwl pum mlynedd. Byddai'r tair blynedd gyntaf ar gyfer cynorthwyo gyda'r gwaith o ffurfio a llunio'r cwricwlwm newydd i sicrhau ei fod fwyaf addas ar gyfer yr ysgolion dan sylw. Gallai'r ddwy flynedd ddilynol gael eu defnyddio ar gyfer dadansoddi ac adolygu - rhan hanfodol o'r broses sy'n cael ei hesgeuluso i raddau helaeth wrth lansio newidiadau o'r fath." (Ymatebydd unigol)

"Tan ddwy flynedd ar ôl cyflwyno'r cwricwlwm newydd er mwyn sicrhau digon o amser i fyfyrion a gwerthuso'r newidiadau ar lefel adrannol, gyfadrannol, ysgol a chenedlaethol a gwneud yr addasiadau perthnasol." (Ysgol neu ymarferydd)

Dylai diwrnodau HMS ychwanegol fod yn barhaus, fel rhan o ddull newydd o ddysgu proffesiynol hirdymor. Dywedodd yr ymatebwyr hyn y dylai diwrnod HMS ychwanegol gael ei ddarparu yn ddiderfyn. Gwelir bod y cwricwlwm newydd yn newid sylweddol i arferion addysgu a bydd addasu i'w ofynion yn broses barhaus ar gyfer nifer o ymarferwyr. Yn ychwanegol, gwelir bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer deialog broffesiynol a chyfleoedd ar gyfer cynllunio, safoni ac asesu yn werthfawr ynddynt eu hunain, heb ystyried y cwricwlwm newydd; dylid blaenoriaethu amser ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn yn yr hirdymor. Ar y cam hwn, felly, gwnaeth yr ymatebwyr ddweud y dylai diwrnodau HMS ychwanegol gael eu darparu ar sail barhaus i gyd-fynd â dull newydd o ddysgu proffesiynol ac i ganiatáu i ymarferwyr ymgymryd â'r holl dasgau angenrheidiol a fydd yn datblygu dros amser (megis llunio adnoddau newydd a diwygio cynnwys y cwricwlwm). Efallai gallai'r diwrnodau HMS ychwanegol gael eu hadolygu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod pan fydd y cwricwlwm wedi'i sefydlu'n fwy cadarn.

"Os yw dysgu proffesiynol i gael ei wireddu fel agwedd bwysig o'r safonau newydd ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol o fewn y gweithlu, byddai gwneud y diwrnodau ychwanegol yn nodwedd barhaol yn pwysleisio cred [Llywodraeth Cymru] yn ei bwysigrwydd." (Ysgol neu ymarferydd)

Ni ddylid darparu diwrnodau HMS ychwanegol. Gwnaeth rhai ymatebwyr achub ar y cyfle hwn i ailbwysleisio eu bod yn anghytuno â'r angen am unrhyw ddiwrnodau HMS ychwanegol ac, yn unol â hynny, nid oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

Bydd mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn yn angenrheidiol. Gwnaeth rhai ymarferwyr achub ar y cyfle hwn i ailbwysleisio - er gwaethaf nifer y blynyddoedd arfaethedig ar gyfer diwrnodau HMS ychwanegol - y dylai mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn gael ei ddarparu. Gwnaeth yr ymatebwyr hyn adleisio rhai o'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i gwestiynau 1 a 2 yr ymgynghoriad.

Dyweddodd nifer bach o ymatebwyr y dylid blaenoriaethu ffurf wahanol ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd amgen ar gyfer dysgu proffesiynol a chynllunio y tu hwnt i ddiwrnodau HMS rheolaidd (megis amser cynllunio, paratoi ac asesu ychwanegol) a sicrhau bod strwythurau dysgu proffesiynol yn ymateb i anghenion sectorau gwahanol (megis sector y blynyddoedd cynnar).

"Mae'n ymddangos yn fwy tebygol mai dysgu proffesiynol mwy rheolaidd, pwrpasol sydd ei angen mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos fel pe bai ysgolion sydd wedi symud i wythnosau anghymesur i ddarparu dysgu proffesiynol bob pythefnos wedi deall graddfa'r

*angen ac maent hefyd yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut mae oedolion yn dysgu'n dda."
(Ymatebydd unigol)*

Roedd nifer bach o ymatebwyr yn ansicr am sawl blwyddyn y dylai'r diwrnodau HMS ychwanegol fod ar gael. Dywedodd yr ymatebwyr hyn eu bod yn ansicr yn gyffredinol ar yr adeg hon faint o amser ychwanegol a fyddai'n ofynnol gan nad oeddent yn teimlo'n ddigon hysbys ynglŷn â gofynion y cwricwlwm newydd. Gwnaeth yr ymatebwyr gydnabod y gallai fod gan ysgolion anghenion HMS gwahanol a/neu y gallai nifer y diwrnodau a blynyddoedd priodol gael ei ailystyried wrth i'r cwricwlwm gael ei roi ar waith. Mae diwrnodau HMS ychwanegol hefyd yn cael eu gweld gan gwpl o ymatebwyr fel un elfen o fewn ystyriaeth fwy sylfaenol, barhaus o ran tâl ac amodau athrawon.

Y gwahaniaethau yn y themâu a godwyd amlaf gan y grwpiau poblogaeth gwahanol.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yn y themâu a oedd yn dueddol o gael eu codi gan grwpiau poblogaeth gwahanol. Gwnaeth ysgolion/ymarferwyr, undebau a sefydliadau haen ganol fynegi safbwyntiau tebyg ynglŷn â'r nifer priodol o flynyddoedd (yn aml gan fodloni ar rhwng tair a phump yn gyffredinol) ac roeddent yn pwysleisio llawer o'r un themâu allweddol (megis pwysigrwydd gwerthuso a'r dull ehangach, parhaus o ddysgu proffesiynol). Roedd niferoedd yr ymatebion sylweddol gan grwpiau poblogaeth eraill – gan gynnwys rhieni – yn annigonol i ganiatáu ar gyfer unrhyw gymhariaeth uniongyrchol yn yr achos hwn.

Dadansoddiad o Gwestiwn 4

Mae gennym ddiddordeb yn eich safbwyntiau ar sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae gennym ddiddordeb mewn tystiolaeth ac enghreifftiau o'r defnydd presennol o HMS, a sut y gellir defnyddio HMS yn y cyfnod cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd er mwyn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn ehangach wrth symud ymlaen.

Beth yw'ch barn am y defnydd presennol o ddiwrnodau HMS?

Darparwyd 830 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Gwnaeth ychydig o dan hanner yr ymatebwyr gyflwyno safbwyntiau cadarnhaol ar sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Gwnaeth oddeutu pumed gynnig safbwyntiau cymysg, a gwnaeth pumed gynnig safbwyntiau negyddol gyda'r gweddill yn cynnig safbwyntiau nad oeddent yn gadarnhaol neu'n negyddol (e.e. yn disgrifio arferion cyfredol neu'n nodi beth yr hoffent weld yn cael ei gynnwys yn yr HMS).

Materion a godwyd gan y rhai a wnaeth fynegi barn gadarnhaol ynghlŷn â'r defnydd o ddiwrnodau HMS.

Y thema a godwyd amlaf oedd bod diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar hyn o bryd. Gwnaeth yr ymatebwyr gyfeirio'n aml at yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i gynllunio diwrnodau HMS a gwnaethant gynnig amrediad o enghreifftiau o sut roeddent yn ystyried bod diwrnodau HMS yn cael eu darparu'n effeithiol. Roedd enghreifftiau a gafodd eu crybwyll yn aml yn ymwneud â chynnwys y diwrnodau HMS, gan gynnwys yr isod:

- Canolbwyntio ar y cwricwlwm newydd;
- Canolbwyntio ar ddiwygio mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Codi safonau;
- Lledaenu gwybodaeth;
- Cynllunio a gweinyddu; a
- Darparu adborth ar sesiynau HMS blaenorol.

Gwnaeth llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau cadarnhaol ar effeithiolrwydd diwrnodau HMS gyfeirio at y broses o gynllunio gweithgareddau hyfforddiant, cynnwys yr hyfforddiant a'r dull o'i gyflwyno (e.e. defnyddio siaradwyr mewnol ac allanol, cylchdroi testunau a staff, cydweithio ag ysgolion eraill).

"Yn fy ysgolion, rydym yn cynllunio ymhell ymlaen llaw ar gyfer diwrnodau HMS ac rydym yn eu defnyddio i'r holl staff a llywodraethwyr rannu, dysgu a datblygu mewn modd sy'n effeithiol o ran cost. Rydym yn gweithio gydag ysgolion clwstwr a'n rhwydwaith ehangach i rannu hyfforddiant a syniadau. Mae cyfnewid dysgu ar y diwrnodau hyn yn hanfodol ac mae'n cynnig y gofod ac amser i ni stopio a myfyrio." (Ysgol neu ymarferydd)

"Mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio yn dda gan yr ysgolion ac yn cael eu cynllunio ymhell ymlaen llaw. Er enghraifft, dwyn darparwyr allanol i mewn ar gyfer hyfforddiant clwstwr, hyfforddiant mewnol gan ddefnyddio arbenigedd staff, a hefyd cymorth cyntaf, amddiffyn plant, y Ddyletswydd Atal, rheoli ymddygiad ac ati." (Ysgol neu ymarferydd)

Mae safbwyntiau ymatebwyr yn nodi bod diwrnodau HMS yn cael eu hystyried fel rhai gwerthfawr ar gyfer dysgu proffesiynol. Gwerth y diwrnodau HMS oedd yr ail thema a godwyd amlaf ymhlith y rhai a gyflwynodd safbwyntiau cadarnhaol, gyda llawer yn gwneud sylwadau am eu gwerth ar gyfer hyfforddiant a datblygu proffesiynol, rhannu a thrafod arferion da, a galluogi dull unigol o ddysgu proffesiynol.

"Defnyddiol - mae llawer o gydweithio rhwng ysgolion yn helpu gyda chysondeb a bod yn gost-effeithiol drwy dalu am arbenigwyr gyda'n gilydd." (Sefydliad haen ganol)

"Mae diwrnodau HMS yn fuddiol iawn i gefnogi anghenion dysgu ein disgyblion a chadw'n gyfredol gyda newidiadau polisi a chwricwlwm. Heb y rhain, ni fyddem yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer ein cenedlaethau yn y dyfodol." (Ysgol neu ymarferydd)

"Maent yn rheidrwydd, yn arbennig ar adeg o newid, nid yn unig o ran y cwricwlwm ond hefyd o ran safonau addysgu ac arweinyddiaeth, newidiadau i reoli perfformiad, ysgolion fel sefydliadau dysgu, newidiadau o ran asesu ac ati, ar yr amod fod ffocws clir ac mae'r fformat ar gyfer datblygiadau ysgol gyfan." (Ysgol neu ymarferydd)

"Sicrhau bod staff addysgu yn gyfredol o ran dulliau addysgu newydd er mwyn darparu'r addysg orau bosibl i fy mhylant." (Rhiant neu warcheidwad)

Roedd yr ymatebwyr yn ystyried bod diwrnodau HMS yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu'r ysgol gyfan a gweithio mewn partneriaeth. Gwnaeth yr ymatebwyr bwysleisio pwysigrwydd dod â'r holl staff ynghyd, canolbwyntio ar flaenoriaethau ar draws yr ysgol, darparu negeseuon cyson iddynt, a hyrwyddo cydweithio. Mae gweithio mewn partneriaeth yn cael ei ystyried fel budd allweddol posibl o ddiwrnodau HMS. Gwnaeth rhai ymatebwyr gynnig sylwadau cadarnhaol am y cyfleoedd mae'r diwrnodau HMS yn eu darparu er mwyn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion clwstwr.

"Rydym yn credu bod ein rhai ni yn amhrisiadwy oherwydd rydym yn defnyddio ein diwrnodau HMS i gyflwyno gweithdai i'r holl staff, er mwyn i'r adrannau gyfarfod a chynllunio ar gyfer darparu naill ai gan arbenigwyr mewnol neu allanol i'r ysgol gyfan." (Ysgol neu ymarferydd)

"Mae HMS ysgolion yn werthfawr ar gyfer [cynllunio datblygu ysgol], archwilio gweledigaethau cyffredin a chynllunio cydweithredol. Mae llywodraethwyr hefyd yn elwa ar ddiwrnodau HMS gyda staff yr ysgol." (Ysgol neu ymarferydd)

"Mae thema i bob un o'n diwrnodau HMS sy'n gysylltiedig â'n hamcanion gwella, e.e.mae un o'n diwrnodau HMS cyfredol yn ddiwrnod clwstwr rydym yn ei gynnal ar y cyd (ein hunain a'n naw ysgol gynradd gyda'i gilydd) gyda ffocws dysgu penodol a gweithdai ar y cyd. Mae un arall o'n diwrnodau HMS presennol yn ddiwrnod [grŵp gwella ysgol] rydym hefyd yn ei gynnal, sy'n digwydd ar y cyd gydag ysgolion eraill yn ein [grŵp gwella ysgol]." (Ysgol neu ymarferydd)

Materion a heriau a nodwyd gan yr ymatebwyr a oedd yn gwneud sylwadau ar y defnydd o ddiwrnodau HMS.

Cafodd nifer o faterion a heriau yn ymwneud â'r defnydd o ddiwrnodau HMS eu nodi gan y rhai a oedd yn mynegi safbwyntiau cadarnhaol yn ogystal â'r rhai a oedd yn mynegi safbwyntiau negyddol a chymysgedd o safbwyntiau.

Yr her a godwyd amlaf **ymhlith yr holl ymatebwyr oedd diffyg amser ar gyfer gweithgareddau HMS**. Roedd y sylwadau yn ymwneud â diffyg amser yn cael eu gwneud gan y rhai a oedd wedi cynnig safbwyntiau cadarnhaol, cymysg a negyddol ynglŷn â sut roedd diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn ymarferwyr a oedd yn gwneud sylwadau am bwysau amser, gan grybwyll eu llwyth gwaith cyffredinol a diffyg amser ar gyfer gweithgareddau amrywiol bob dydd (e.e. creu adnoddau, cynllunio gwersi) yn ogystal â'r amser gofynnol er mwyn cadw'n gyfredol o ran polisiau a mentrau newydd. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn teimlo y byddai'r amser a dreuliodd mewn diwrnodau HMS yn cael ei dreulio'n well ar weithgareddau gwaith eraill. Roedd rhai yn teimlo bod diffyg cyfle ar gyfer myfyrio a dysgu critigol.

"Mae'r mwyafrif yn ddefnyddiol i'r ysgol gwmpasu agweddau penodol y mae angen i'r holl staff gymryd rhan ynddynt, ond byddai mwy o amser yn yr adran neu'n unigol i fyfyrion a gwella ar safonau yn braf." (Ysgol neu ymarferydd)

"Mae angen mwy o amser ar athrawon i ystyried beth sydd ei angen arnynt yn hytrach nag eistedd mewn neuadd yn gwrando ar wybodaeth efallai na fyddai'n arbennig o berthnasol neu ddefnyddiol i'r athro penodol hwnnw. Byddai'n llawer mwy defnyddiol neu fuddiol i fod yn rheoli eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun. Er enghraifft, byddai'n llawer mwy defnyddiol i mi dreulio fy amser yn diweddar adnoddau ar gyfer fy adran a chael amser i gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill o fewn fy maes dysgu a phrofiad fy hun - gan rannu arferion gorau." (Ysgol neu ymarferydd)

Nododd ysgolion arbennig fod diffyg amser ar gyfer datblygiad proffesiynol yn sgil yr hyfforddiant ychwanegol yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer ymarferwyr. Mae'r thema hon yn cael ei hadleisio mewn ymatebion i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn, gydag ymatebwyr yn pwysleisio bod ysgolion arbennig yn wynebu amrediad eang o ofynion hyfforddiant gorfodol sy'n gosod gofynion ychwanegol ar eu diwrnodau HMS.

"Ar hyn o bryd, nid oes digon o amser HMS mewn ysgolion arbennig gan fod gymaint o anghenion hyfforddiant craidd hanfodol i'w diwallu. Mae'r amser yn cael ei fwyafu ac mae dulliau creadigol iawn (carwselau, sesiynau fin nos, rhannu adnoddau gydag ysgolion eraill ac ati) i gyd yn cael eu defnyddio ond mae'r amser yn dal i fod yn dynn iawn." (Ysgol neu ymarferydd)

"Drwy fod yn y sector arbennig, nid oes digon ohonom fel tîm arweinyddiaeth i gwmpasu'r holl agweddau amlddisgyblaethol angenrheidiol." (Ysgol neu ymarferydd)

Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried nad oedd diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn. Cynigiwyd amrywiaeth o resymau dros hyn gan yr ymatebwyr, gyda rhai yn nodi bod trefniadau cyfredol yn cynnig cyfleoedd cydweithio annigonol. Roedd rhai yn ystyried nad oedd diwrnodau HMS yn cael eu cyflwyno yn y modd mwyaf effeithlon neu roeddent o safon wael.

"Mae angen i'r rhan fwyaf o ddiwrnodau HMS gael eu symleiddio'n fwy. Byddai llai o amser yn trafod a mwy o amser yn cyflawni ac yn gweithredu newidiadau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn fuddiol." (Ysgol neu ymarferydd)

"Fel y saif ar hyn o bryd, nid yw diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn. Mae gormod o amser yn cael ei wastraffu ar faterion a allai gael eu cyfuno mewn e-bost neu eu trosglwyddo i reolwyr llinell eu lledaenu mewn cyfarfodydd adran. Dylai amser HMS gael

*ei dreulio'n well drwy ganiatáu i athrawon baratoi a chynllunio gwersi deniadol ac arloesol."
(Ysgol neu ymarferydd)*

Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo bod HMS yn canolbwyntio'n annigonol ar arferion ac addysgeg sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ychwanegol, gwnaeth rai adrodd bod tystiolaeth gyfyngedig o effeithiolrwydd dulliau gwahanol o ddysgu proffesiynol ac y dylai HMS gael ei fonitro a'i werthuso'n agosach i asesu ei effeithiolrwydd.

"Credaf fod angen mwy o ffocws ar addysgeg a gweithio ar draws clystyrau." (Ysgol neu ymarferydd)

"Maent yn wastraff amser; byddai'n well gennyf drafod addysgeg a defnyddio'r gwaith ymchwil diweddaraf i wella gwersi a gweithredu gwelliannau." (Ymatebydd unigol)

Nododd rai ymatebwyr yr angen am fwy o gymorth canolog ar gyfer HMS. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn ystyried bod angen am fwy o ganllawiau strategol ar HMS (e.e. agenda genedlaethol), tra oedd eraill yn cyfeirio at angen am fwy o ganllawiau ar y cwricwlwm newydd, adnoddau cyffredin, a mwy o fewnbwn allanol oddi wrth ddarparwyr hyfforddiant allanol. Roedd rhai yn teimlo bod diffyg cyllid ar gael i ariannu darparu hyfforddiant yn allanol. Awgrymodd ymatebwyr y gallai **mwy o gymorth a chanllawiau canolog helpu i oresgyn yr anghysondeb ymddangosiadol o ran arferion ac amrywiaeth o ran ansawdd ac effeithiolrwydd HMS.**

"Yn amlwg, mae'r rhain yn bwrpasol i leoliadau ysgol. Byddai'n ddefnyddiol cael rhai adnoddau generig y gallai ysgolion eu defnyddio (neu eu haddasu) ond sydd â'r un negeseuon sylfaenol ynddynt." (Ysgol neu ymarferydd)

"Dw i'n credu bod diffyg cysondeb arferion ar draws y consortiwm ac ar draws y sir. Dwi'n credu bod angen mwy o ganllawiau o ran meysydd i'w datblygu ar gyfer ysgolion, e.e. dylai'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd fod yn flaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant a dylai fod rhwymedigaeth i ysgolion gynnig hyfforddiant mewn meysydd penodol wrth gynnal rhywfaint o ymreolaeth mewn diwrnodau HMS eraill." (Ysgol neu ymarferydd)

"Yn debyg i nifer o agweddau ar system addysg Cymru, mae'n debygol fod amrywiaeth o ran sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio rhwng gwahanol leoliadau ac mewn awdurdodau lleol a chlystyrau ysgolion gwahanol ar draws y wlad." (Undeb)

Fodd bynnag, roedd cynnal ymreolaeth ysgolion ac athrawon i gynllunio a blaenoriaethu cynnwys yr HMS hefyd yn ystyriaeth bwysig ar gyfer nifer o ymatebwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r lefelau presennol o ymreolaeth a roddir i ysgolion. Mae'r thema hon yn cael ei hadleisio mewn sylwadau a wnaed wrth ymateb i Gwestiwn 5 ynglŷn ag a ddylai cynnwys gorfodol gael ei ddarparu ar gyfer y diwrnod HMS ychwanegol.

"Dw i'n credu na ddylai fod unrhyw orfodaeth ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud yn benodol ar y diwrnodau HMS, ac y dylai fod yn ôl disgrisiwn yr ysgol fel bod pob sefydliad unigol yn gallu defnyddio'r diwrnodau hyn i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd ym mha bynnag ffordd y mae angen i bob ysgol ei wneud." (Ymatebydd unigol)

"Pan fyddant yn cael eu teilwra'n dda i'r ysgol, gallant fod yn gynhyrchiol iawn. Fodd bynnag, mae adegau pan fo'r cynnwys neu'r hyfforddiant yn cael ei wthio gan yr awdurdod lleol neu gonsortia ac yn aml nid yw'r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol." (Ysgol neu ymarferydd)

Cafodd cyfleoedd annigonol eu darparu yn ystod sesiynau HMS ar gyfer myfyrion beirniadol ac i ymarferwyr fyfyrion ar eu hanghenion dysgu a datblygu sgiliau unigol eu hunain. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen i ddiwrnodau HMS gael eu teilwra i anghenion yr ymarferydd yn fwy (e.e. yn fwy penodol i bwnc neu faes).

"Mae diffyg hyblygrwydd i athrawon ddilyn eu hymholiadau eu hunain yn yr ysgol. Pe bai amser HMS yn cael ei neilltuo i hyn, byddai mwy o ysgolion yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil weithredu." (Ysgol neu ymarferydd)

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylw ar amserlennu diwrnodau HMS. Roedd rhai ymatebwyr yn gefnogol i ysgolion yn trefnu diwrnodau HMS ar yr un dyddiadau, gan nodi bod hyn yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion (e.e. sesiynau ar y cyd i rannu arferion da) a gweithio mewn clystyrau. Ystyriwyd hefyd fod hyn yn fuddiol ar gyfer cydweithio trawsffiniol rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau lleol gwahanol.

"Byddai cael diwrnodau HMS cyffredin ar draws y siroedd yn caniatáu i ni weithio gyda'n gilydd ar draws y rhanbarth. Byddai hyn yn fanteisiol, yn enwedig os nad oes unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn eich sir." (Ysgol neu ymarferydd)

Ystyriai rhai rhieni neu warcheidwaid â phlant mewn mwy nag un ysgol fod y dull hwn yn fuddiol a gwnaethant ddweud y byddai cydamseru diwrnodau HMS yn yr ysgolion hyn yn lleihau nifer y diwrnodau o ofal plant roedd yn rhaid iddynt eu trefnu.

"Mae'r holl ysgolion yn cynllunio diwrnodau gwahanol felly os oes gennych blentyn yn yr ysgol gynradd ac un yn yr ysgol uwchradd, mae angen posibl am ddeg diwrnod ychwanegol o ofal plant. Sut ydw i'n talu am hyn? Sut ydw i'n defnyddio fy ngwyliau gwaith ar gyfer hyn?" (Rhiant neu warcheidwad)

Mynegwyd pryderon ynglŷn ag ysgolion yn trefnu HMS ar yr un diwrnodau, gan nodi y gallai arwain at anawsterau o ran cael mynediad at arbenigwyr neu ddarparwyr hyfforddiant allanol. At hynny, roedd rhai ymarferwyr yn teimlo y dylai ysgolion unigol fod yn gallu trefnu diwrnodau HMS pan oedd yn fwyaf cyfleus ar gyfer anghenion yr ysgol.

"Diwallu anghenion ysgolion unigol sydd ar gamau datblygu gwahanol. Mae'r rhyddid i ddethol diwrnodau yn bwysig er mwyn cael hwyluswyr neu pan fo'r ysgol eu hangen. Nid yw diwrnodau a bennir yr un mor effeithiol." (Ysgol neu ymarferydd)

Gwnaed sylwadau hefyd am ddefnydd ysgolion o sesiynau HMS 'fin nos' (h.y. sesiynau a amserlennwyd ar ôl oriau ysgol, a ddefnyddir yn lle diwrnodau HMS cyfan). Gwnaeth rhai ymatebwyr gwestiynu ai dyma'r ffordd fwyaf priodol o amserlennu hyfforddiant ymarferwyr. Yn ychwanegol, gwnaeth rhai ymatebwyr gynnig y dylai diwrnodau HMS gael eu trefnu yn ystod gwyliau'r ysgol.

"Pe gallent gael eu hychwanegu at wyliau'r ysgol, byddai hyn yn haws at ddibenion gofal plant. Mae diwrnodau ad hoc yn gallu tarfu." (Ymatebydd unigol)

"Dw i'n credu ei fod yn ymddangos fel pe bai gormod yn digwydd mewn ysgolion sydd angen datblygiad proffesiynol parhaus am bum diwrnod y flwyddyn. Dw i'n credu y dylid talu am y diwrnodau ychwanegol yn ystod cyfnodau gwyliau ac na ddylent gael eu cynnwys yn ystod tymor yr ysgol. Wedyn ni ddylai rhieni brofi tarfu pellach ar eu hamserlenni gwaith, sef

*yn gyffredinol yr hyn sy'n digwydd gyda'r dull presennol ar gyfer diwrnodau HMS."
(Ymatebydd unigol)*

Roedd y galwadau cynyddol ar athrawon yn sgil datblygiadau polisi allweddol (e.e. Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, diwygio'r cwricwlwm) yn cael eu codi'n gyffredin gan ymatebwyr fel rheswm dros gynyddu faint o ddatblygu proffesiynol parhaus a ddarperir. Felly dywedodd rhai ymatebwyr fod diwrnodau HMS ychwanegol yn angenrheidiol er mwyn rhoi'r sgiliau i ymarferwyr i gyflwyno'r diwygiadau hyn. Cafodd y thema hon ei hadleisio'n aml mewn ymateb i gwestiynau ymgynghori eraill, gyda'r ymatebwyr yn pwysleisio y dylai diwrnodau HMS ychwanegol gael eu hystyried yng nghyd-destun datblygiadau polisi addysg ehangach.

"Yn syml, nid yw pum diwrnod HMS yn ddigon i athrawon ar hyn o bryd gyda'r galwadau cynyddol ar y rôl." (Ysgol neu ymarferydd)

"Nid oes digon ar gyfer yr holl alwadau sydd ar athrawon." (Ysgol neu ymarferydd)

Roedd nifer bach o rieni yn teimlo nad oeddent yn deall ar gyfer beth roedd diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio ac nad oeddent yn derbyn gwybodaeth ddigonol am ddiben yr hyfforddiant.

"Mae'n anodd dweud oherwydd gallwn ni fel rhieni ond derbyn y cyfathrebu sy'n cael ei gynnis gan yr ysgol o ran diwrnodau HMS, sy'n aml yn brin iawn neu ddim o gwbl." (Rhiant neu warcheidwad)

Y gwahaniaethau yn y themâu a godwyd amlaf gan y grwpiau poblogaeth gwahanol.

Roedd ymarferwyr ysgol yn ymddangos fel pe baent yn mynegi safbwyntiau cadarnhaol yn amlach na grwpiau eraill o ymatebwyr o ran y defnydd o ddiwrnodau HMS. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yr oedd modd eu hadnabod fel ysgolion neu ymarferwyr yn mynegi safbwyntiau cadarnhaol ar sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gydag oddeutu traean yn mynegi cymysgedd o safbwyntiau cadarnhaol a negyddol. Gwnaeth llai na phumed fynegi safbwyntiau negyddol. Ymhlith ymatebwyr yr oedd yn hysbys eu bod yn rhai haen ganol ac undebau, roedd oddeutu hanner yn mynegi naill ai safbwyntiau cymysg neu ddim yn mynegi safbwyntiau cadarnhaol na negyddol. Gwnaeth oddeutu traean fynegi safbwyntiau cadarnhaol, a gwnaeth ambell ymatebydd fynegi safbwyntiau negyddol. Prin oedd y rhieni a wnaeth fynegi safbwyntiau ar y cwestiwn hwn, ond roedd y rhai a wnaeth yn cyflwyno safbwyntiau cymysg.

Roedd ymarferwyr ysgol yn fwy tebygol nag eraill o fynegi pryderon am y diffyg amser sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau hyfforddiant yn ystod diwrnodau HMS a materion yn ymwneud â llwyth gwaith ymarferwyr. Roedd ymatebwyr o ysgolion hefyd yn fwy tebygol o grybwyll angen am fwy o ymreolaeth gan ysgolion ac athrawon, tra oedd sefydliadau haen ganol ac undebau'n crybwyll yn amlach yr angen am ganllawiau strategol neu fabwysiadu dull mwy cyson ar gyfer diwrnodau HMS.


Dadansoddiad o Gwestiwn 5

Rydym yn cynnig cyflwyno dull gorfodol o ddefnyddio'r diwrnod ychwanegol er mwyn sicrhau bod holl athrawon Cymru yn gallu manteisio ar becyn dysgu proffesiynol cenedlaethol sydd â'r bwriad penodol o'u helpu i baratoi am y newid sylfaenol a fydd yn deillio o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Ydych chi'n credu y dylem baratoi cynnwys gorfodol ar gyfer y diwrnodau ychwanegol hyn?

Mewn cwestiwn caeedig, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r ffigur isod yn cyflwyno'r canlyniadau: roedd 38% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn, nid oedd 25% naill ai'n cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 37% yn anghytuno.

Ffigur 3: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, naill ai ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno y dylid paratoi cynnwys gorfodol ar gyfer y diwrnodau ychwanegol hyn (n = 885)



Gwnaed 616 o sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno â'r cwestiwn, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn.

Mae cynnwys gorfodol ar gyfer y diwrnodau ychwanegol yn angenrheidiol fel ffordd o sicrhau bod cysondeb o ran y cynnwys. Y thema hon o gysondeb a chydardoldeb mynediad at gynnwys oedd y thema fwyaf cyffredin o lawer ymhlith y rhai a oedd yn cytuno â pharatoi cynnwys gorfodol. Dywedodd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig fod yr hyfforddiant ar gyfer y cwricwlwm newydd yn gyson ledled Cymru a bod agendâu cyffredin ac adnoddau cyffredin yn cael eu rhoi ar gael i ganiatáu ar gyfer cydweithio haws ar draws ysgolion, er

mwyn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu derbyn ar yr un pryd ac i adael llai o le ar gyfer camddehongli.

"Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y wlad a bydd yn caniatáu capasiti hyfforddiant pan fydd ymarferwyr yn symud rhwng ysgolion. Yn ychwanegol, mae gwybodaeth uwch-arweinwyr yn amrywiol ac felly, er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o'r diwrnod ychwanegol, byddai cynnwys gorfodol yn synhwyrol." (Ysgol neu ymarferydd)

"Yn ôl ein profiad ni fel Ysgol Arloesi, rydym wedi darganfod yn aml fod gwybodaeth wedi bod ar gael i grwpiau gwahanol ar adegau gwahanol. Mae hyn wedi peri dryswch. Credaf y bydd cynnwys gorfodol yn lliniaru'r risg o negeseuon cymysg neu gamamseredig yn cael eu cyfathrebu. Wedi dweud hynny, credaf yn gryf hefyd fod angen amser a lle ar ysgolion i ddehongli'r agenda genedlaethol a'r negeseuon ar lefel leol, mewn cyd-destun lleol." (Ysgol neu ymarferydd)

Dylai fod cynnwys gorfodol ar y diwrnodau ychwanegol fel bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r diwrnodau hynny. Roedd yr ymatebwyr yn pryderu na fyddai'r diwrnodau ychwanegol, heb gynnwys gorfodol neu ganllawiau clir, yn cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd.

"Rydych chi'n gwybod bod yr ysgolion yn derbyn yr hyfforddiant cywir ac nad yw'r diwrnodau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw beth arall." (Ysgol neu ymarferydd)

"Os yw pawb yn gweithio tuag at yr un nodau ar yr un pryd, dylai hynny helpu'r cam gweithredu neu fel arall mae risg y bydd y diwrnod(au) ychwanegol yn cymysgu â gweddill y gweithgareddau HMS." (Nid oes modd ei briodoli)

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno â darparu cynnwys gorfodol, roedd nifer bach o ymatebwyr o blaid nodi'r cynnwys naill ai ar gyfer rhan o'r diwrnod neu ar gyfer yr ychydig ddiwrnodau HMS ychwanegol cyntaf yn unig, gan wedyn agor yr agenda i gwmpasu blaenoriaethau'r ysgol. Roedd themâu eraill yn cynnwys yr angen am hyblygrwydd o ran darparu'r cynnwys, rôl bosibl cynnwys gorfodol o ran cyfrannu at drafodaeth genedlaethol ar y cwricwlwm newydd, a'r angen i gysylltu cynnwys gorfodol â gwella a gwerthuso parhaus.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn.

Mae anghenion ysgolion yn wahanol ac ni fyddai cynnwys gorfodol yn addas i'r holl ysgolion.

Gwnaeth yr ymatebwyr bwysleisio bod ysgolion yn penderfynu beth sy'n bwysig i'w lleoliad i ddiwallu eu hanghenion a chyflawni eu blaenoriaethau eu hunain. Mae gan bob ysgol ei dull ei hun o ran sut y mae'n datblygu'r cwricwlwm sydd fwyaf addas ar gyfer ei chyd-destun ei hun ac ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar eu hanghenion eu hunain.

Byddai cynnwys gorfodol yn gyfyngol a dywedodd yr ymatebwyr y byddai'n anodd pennu cynnwys sy'n cyfateb i gamau datblygu gwahanol yr ysgolion tuag at ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Dywedodd yr ymatebwyr fod rhai ysgolion yn fwy datblygedig o ran eu dealltwriaeth a'u datblygiad o'r cwricwlwm newydd a gallent gael eu dal yn ôl gan y cynnwys gorfodol neu ddarganfod eu bod wedi cwmpasu'r cynnwys eisoes.

"Mae ysgolion mewn amrediad eang o sefyllfaoedd o ran y cwricwlwm newydd, gyda chryfderau gwahanol a meysydd datblygu gwahanol. Bydd cynnwys gorfodol safonol, yn

ddull 'un ateb sy'n addas i bawb', yn cynnig diffyg dyfnder ar gyfer llawer o ysgolion yn y meysydd y mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt." (Ysgol neu ymarferydd)

Gan fod y cwricwlwm newydd yn pwysleisio rhoi mwy o alluedd i ymarferwyr, credai llawer o ymatebwyr y byddai cyhoeddi cynnwys gorfodol yn mynd yn hollol groes i ethos Cwricwlwm i Gymru 2022. Dylid caniatáu i ysgolion greu eu hagenda eu hunain sy'n addas i'w hanghenion eu hunain a'r cyd-destun lleol. Er y byddai rhywfaint o ganllawiau yn ddefnyddiol, mae angen lle ar gyfer arloesedd a chreadigrwydd wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Dylid ymddiried yn y proffesiwn addysgu i gynllunio diwrnodau HMS yn effeithiol i lywio'r cwricwlwm newydd a dylai ysgolion gael yr ymreolaeth i'w gyflwyno mewn ffordd sy'n addas ar gyfer anghenion yr ysgol.

"O ystyried y neges gref oddi wrth Lywodraeth Cymru y bydd y cwricwlwm newydd yn edrych yn wahanol ymhob ysgol, dylai fod yn gyfrifoldeb i'r ysgol i strwythuro'r diwrnod yn seiliedig ar ei blaenoriaethau." (Ymarferydd ysgol)

Er bod llawer o ymatebwyr yn anghytuno â dilyn cynnwys gorfodol yn ystod y diwrnodau HMS ychwanegol, roedd **mantais darparu canllawiau clir a rhoi cronfa adnoddau ar gael yn thema allweddol** yn y sylwadau ychwanegol.

Ymhlith y rhai nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn.

Y thema a godwyd amlaf gan y rhan fwyaf o ymatebwyr oedd yr angen am ganllawiau a strwythur clir. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu canllawiau clir ar gyfer cynnwys yr HMS ychwanegol ond gwnaeth llawer o'r ymatebwyr gwestiynu a ddylai hyn fod yn orfodol. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai'n fuddiol cael y cynnwys amlinellol ond y dylai hyn hefyd ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd ac amser i'r ysgolion fynd i'r afael â'u blaenoriaethau eu hunain.

Yn debyg i'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â darparu cynnwys gorfodol, y **thema allweddol arall a godwyd gan y grŵp hwn oedd bod anghenion ysgolion yn wahanol a bod ysgolion mewn safleoedd gwahanol.**

Dywedodd nifer bach y dylai'r cynnwys ganolbwyntio ar y cwricwlwm newydd ar y diwrnodau ychwanegol, i sicrhau bod y diwrnodau hynny yn cael eu defnyddio'n benodol at y diben hwn yn hytrach na blaenoriaethau amgen ysgolion.

"Mae angen neges gyffredin a chyson o ran y cwricwlwm newydd er mwyn osgoi camddealltwriaeth a chamsyniad. Fodd bynnag, rhaid ystyried y ffaith fod yr holl ysgolion ar gamau gwahanol o'r daith a gallai fod arnynt angen cymorth gwahanol." (Ysgol neu ymarferydd)

"Dw i'n credu y dylai fod yn orfodol i'r diwrnodau ychwanegol ganolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru ond y dylai ysgolion unigol fod â pherchenogaeth dros yr hyn sy'n cael ei gwmpasu gan eu bod i gyd ar gamau gwahanol o'u taith." (Ysgol neu ymarferydd)

Nodweddion cyffredin ar draws yr holl ymatebion (cytuno, anghytuno, neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno).

Esboniodd llawer o ymatebwyr yn eu sylwadau ychwanegol y byddent yn croesawu fframwaith neu ganllawiau clir ar y diwrnodau ychwanegol, ni waeth sut y gwnaethant ateb y cwestiwn caeedig.

"Dw i'n credu bod fframwaith gorfodol ar gyfer y diwrnodau yn hanfodol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol; fodd bynnag, dylai ysgolion a lleoliadau unigol fod yn gallu penderfynu beth sy'n gweithio orau iddynt yn eu cyd-destun hwy. Byddai deunyddiau cymorth yn ddefnyddiol iawn." (Ysgol neu ymarferydd)

Y gwahaniaethau yn y themâu a godwyd amlaf gan y grwpiau poblogaeth gwahanol.

Roedd sefydliadau haen ganol ac undebau rywfaint yn fwy tebygol o gytuno â darparu cynnwys gorfodol nag ymatebwyr eraill. Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yn y themâu a godwyd gan y grwpiau poblogaeth gwahanol yn eu sylwadau ychwanegol ac roedd yr ymatebwyr o'r holl grwpiau yn croesawu canllawiau a strwythur, yn gwneud sylwadau am yr angen am gysondeb, ac yn codi'r mater y byddai angen i unrhyw gynnwys a ddarperir ystyried anghenion gwahanol ysgolion.

Cafodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar ddarparu cynnwys gorfodol eu cymharu â'r ymatebion i'r cwestiwn blaenorol ar safbwyntiau ymatebwyr ar sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. **Roedd yr ymatebwyr hynny a fynegodd safbwyntiau cadarnhaol ar y defnydd o ddiwrnodau HMS** yn eu sylwadau ychwanegol i Gwestiwn 4 **yn fwy tebygol o wneud sylw bod anghenion ysgolion yn wahanol** a bod ysgolion ar gyfnodau gwahanol. Fel arall, roedd y themâu a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â chynnwys gorfodol yn gyffredinol debyg, ni waeth pa safbwyntiau a gyflwynwyd ynglŷn â diwrnodau HMS presennol.


Dadansoddiad o Gwestiwn 6

Rydym eisiau osgoi sefyllfa lle mae unrhyw athro neu ysgol yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl, ac rydym am greu sgwrs genedlaethol ynglŷn â dysgu proffesiynol. Hoffem glywed eich safbwyntiau ar a fyddai dyddiad penodedig ar gyfer HMS ychwanegol yn llwyddo yn ymarferol.

Ydych chi'n credu y byddai'n fanteisiol pennu dyddiad penodedig ar gyfer y diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, neu a fyddai'n well pennu cyfnod (h.y. yn ystod tymor neu hanner tymor penodol)?

Mewn cwestiwn caeedig, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r ffigur isod yn cyflwyno'r canlyniadau: roedd 48% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn, nid oedd 26% naill ai'n cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 26% yn anghytuno. Dylid nodi, yn sgil geiriad y cwestiwn, **ni ellir ystyried bod yr ymatebion i'r cwestiwn caeedig yn hollol gywir**. Dangosodd dadansoddiad manylach o sylwadau'r ymatebwyr fod cyfran uwch – dwy ran o dair yr ymatebwyr – yn credu y byddai naill ai cael dyddiad neu gyfnod penodedig yn fuddiol.

Ffigur 4: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno y byddai pennu dyddiad penodedig ar gyfer y diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ychwanegol yn fuddiol (n = 855).



Gwnaed 713 o sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Yn sgil geiriad y cwestiwn, gwnaeth yr ymatebwyr ddewis ateb y cwestiwn hwn mewn ffyrdd gwahanol, ac roedd themâu cyffredin yn yr atebion ar draws yr opsiynau ateb. Cafodd y sylwadau ychwanegol eu hadolygu ac yna eu categoreiddio yn ôl y safbwyntiau a fynegwyd yn y sylwadau hynny yn hytrach nag yn ôl yr opsiwn a ddewiswyd i'r ateb caeedig. Yn ôl y dadansoddiad o'r sylwadau ychwanegol, gwnaeth 67% o ymatebwyr fynegi safbwynt y byddai

naill ai dyddiad neu gyfnod penodedig yn gweithio'n ymarferol. Gwnaeth oddeutu pumed (19%) anghytuno a nodi y dylai ysgolion (neu glystyrau neu gonsortia) benderfynu a gwnaeth 6% ganolbwyntio ar yr heriau ymarferol a fyddai'n gwneud gosod dyddiad neu gyfnod yn anodd. Roedd 6% o'r ymatebwyr heb benderfynu a gwnaethant ddweud nad oedd ganddynt farn. Roedd y 2% oedd yn weddill naill ai'n gwrthwynebu diwrnodau HMS ychwanegol neu'n cynnig y dylai'r diwrnodau fod yn ystod y gwyliau ysgol.

Roedd dwy ran o dair yr ymatebwyr yn cytuno â chael naill ai dyddiad neu gyfnod penodedig ar gyfer yr HMS ychwanegol.

Roedd oddeutu hanner y rhain o blaid dyddiad penodedig.

Dywedodd ymatebwyr y byddai 'diwrnod cenedlaethol' yn fuddiol am nifer o resymau.

Gallai dyddiad penodedig ar gyfer y diwrnod HMS ychwanegol helpu i gyfathrebu bod y cwricwlwm newydd yn flaenoriaeth genedlaethol i rieni a'r cyhoedd. Dywedodd yr ymatebwyr y gallai hyn gynyddu gwerth y diwrnod HMS ychwanegol yn llygad y cyhoedd, gan olygu y byddai rhieni yn deall yr angen am ddiwrnod ychwanegol yn fwy.

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai cael dyddiad penodedig ar gyfer y diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol yn caniatáu ar gyfer mwy o gydweithio rhwng ysgolion. Byddai hefyd yn fuddiol i ysgolion ac ymarferwyr gael y negeseuon ar yr un pryd yn ystod dyddiad penodedig, sy'n sicrhau bod pob ysgol yn derbyn yr un wybodaeth am y cwricwlwm newydd ar yr un pryd ac nid oes unrhyw ysgol neu ymarferydd yn cael eu gadael ar ôl. Byddai rheoli amseriad diwrnodau HMS hefyd yn ddefnyddiol i ymarferwyr sy'n newid swyddi ac yn symud rhwng ysgolion.

Gwnaeth yr ymatebwyr ailbwysleisio y byddai'n haws i rieni drefnu gofal plant os oes dyddiad penodedig, yn enwedig ar gyfer y rhieni hynny sydd â phlant mewn ysgolion gwahanol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gonsensws ar y mater hwn ac roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn y byddai un dyddiad penodedig yn rhoi gormod o bwysau ar y sector gofal plant, ac y byddai prinder gofal plant ar y diwrnodau hyn.

"Pe bai dyddiad penodedig yn cael ei ddewis i'w ddefnyddio ledled Cymru neu ar draws rhanbarthau / awdurdodau lleol penodedig, byddai ysgolion wedyn yn cael y cyfle i ddod ynghyd yn fwy i drafod a chynllunio ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Gall y gwaith wedyn gael ei rannu a gellir rhannu mwy o arferion da ledled y consortia." (Ysgol neu ymarferydd)

"Dylai pawb, ymhob man, gael yr un cyfleoedd. Diwrnod i bawb ledled Cymru. Mae angen i ni glywed yr un negeseuon." (Sefydliad haen ganol)

Roedd yr hanner arall o blaid cyfnod penodedig yn hytrach na dyddiad.

Credai ymatebwyr y byddai cyfnod pan fyddai'r holl ysgolion yn cymryd y diwrnod HMS ychwanegol yn fuddiol am rai o'r un rhesymau â'r ymatebwyr a oedd yn ffafrio dyddiad penodedig, sef cyfathrebu bod y cwricwlwm newydd yn flaenoriaeth a sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn derbyn negeseuon allweddol tua'r un amser.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn argymhell cyfnod penodedig yn hytrach na dyddiad penodedig yn aml yn bryderus am ymarferoldeb trefnu diwrnodau HMS ar draws yr holl ysgolion ar yr un diwrnod. Roedd dwy brif thema o ran anawsterau ymarferol ynghylch

dyddiad penodedig. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r nifer cyfyngedig o arbenigwyr a siaradwyr yn golygu y byddai gosod un dyddiad yn amhosibl. Gwnaethant nodi'r her o bob ysgol yn ceisio cael mynediad at siaradwyr arbenigol neu'n ceisio cael mynediad at brofiad cydweithwyr o Ysgolion Arloesi os oedd dyddiad penodedig. Byddai cyfnod yn hytrach na dyddiad hefyd yn cael ei ffafrio gan fod gan ysgolion gyfnodau prysur gwahanol, a bydd gan lawer ymrwymadau presennol a digwyddiadau sydd eisoes wedi cael eu hamserlennu.

"Dw i'n credu y byddai cyfnod penodedig o amser yn fwyaf effeithiol. Mae gan ysgolion flaenoriaethau eraill, yn ychwanegol at y cwricwlwm newydd, a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain mewn modd amserol hefyd." (Ysgol neu ymarferydd)

"Credwn na fyddai'n ymarferol cael dyddiad penodedig. Er enghraifft, gallai fod angen i hyfforddwyr gyflwyno hyfforddiant mewn amryw o ysgolion yn y rhanbarth ac ni fydd hynny'n bosibl os yw'r hyfforddiant ar yr un diwrnod, neu gallai fod amryw o ddiwrnodau yn ofynnol mewn un ysgol i gwmpasu'r un cynnwys oherwydd bod angen sicrhau bod staff rhan-amser yn gallu mynychu. Ond byddai nodi y dylai'r diwrnod HMS gael ei amserlennu ar gyfer tymor y gwanwyn gyda rhywfaint o ddisgresiwn o ran y dyddiad penodedig yn gweithio'n dda." (Undeb)

Roedd cais gan lawer o ymatebwyr i unrhyw ddyddiad penodedig gael ei ychwanegu at wyliau'r ysgol, eto fel y bo'n haws i rieni gynllunio gofal plant, neu fanteisio ar ymestyn eu gwyliau. Gofynnodd nifer bach am dymor penodedig ar gyfer yr HMS ychwanegol, sef tymor yr haf fel arfer, er nad oedd unrhyw gonsensws ar yr amseriad, gyda cheisiadau i'r diwrnod HMS ychwanegol gael ei drefnu yn ystod tymhorau eraill hefyd.

"[Rwyf yn cytuno â dyddiad]... ar yr amod ei fod yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw ac yn cael ei ychwanegu at wyliau ysgol presennol ar ddiwedd neu ddechrau tymor." (Ysgol neu ymarferydd)

Esboniodd rhai ymatebwyr fod manteision ac anfanteision i'r ddau opsiwn o ddyddiad penodedig neu gyfnod penodedig. Esboniodd nifer bach o ymatebwyr nad oedd ganddynt farn ar y mater, 'cyhyd ag y bo'n digwydd', a dywedodd nifer bach iawn nad oeddent yn teimlo ei fod yn fater pwysig.

Credai lleiafrif sylweddol (pumed o'r rhai a wnaeth ddarparu sylwadau ategol) y dylai'r ysgolion benderfynu pryd i ddefnyddio'r diwrnodau HMS ychwanegol.

Dywedodd yr ymatebwyr y **dylai ysgolion allu penderfynu ar yr amseriadau mwyaf addas i ganiatáu ar gyfer digwyddiadau a hyfforddiant a gynlluniwyd ymlaen llaw**, a bod yn gallu cwmpasu'r cynnwys sy'n berthnasol iddynt ar yr adeg o'r flwyddyn y maent yn credu sydd fwyaf effeithiol. Byddai hyn hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ysgolion ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Gan adleisio atebion i'r cwestiwn blaenorol ar ddarparu cynnwys gorfodol, soniodd nifer bach iawn o ymatebwyr am yr **angen am ymreolaeth ysgolion ac y dylid ymddiried yn yr ysgolion o ran amseriad y diwrnod ychwanegol**. Byddai penderfynu ar ddyddiad penodedig yn mynd yn groes i ethos y cwricwlwm newydd.

"Byddai'n groes i'r neges o ran allu'r cwricwlwm newydd i wneud yr hyn sy'n hollol gywir ar gyfer ysgol, plant, staff, clwstwr a chymuned unigol." (Ysgol neu ymarferydd)

"Mae angen iddo fod yn addas i gyd-destun yr ysgol ac nid yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru wybod pryd yw'r amser cywir i gyflwyno cynnwys penodedig mewn ysgolion gwahanol. Dylid ymddiried yn yr uwch-arweinwyr i gyflwyno'r peth cywir ar yr adeg gywir i'r ysgol." (Ysgol neu ymarferydd)

Mewn rhai o'r sylwadau ychwanegol a ddadansoddwyd, **roedd hoffterau'r ymatebwyr yn aneglur**, tra oedd nifer bach iawn wedi esbonio nad oedd ganddynt unrhyw farn gref.

Dywedodd nifer bach iawn o ymatebwyr y dylai'r diwrnodau HMS ychwanegol fod gyda'r nos neu yn ystod y gwyliau ysgol, a dywedodd llond llaw na ddylai unrhyw ddiwrnodau HMS ychwanegol gael eu darparu. Roedd yr ymatebwyr hyn yn disgrifio eu hunain fel rhieni neu warcheidwaid neu nid oeddent yn rhoi gwybod pa grŵp roeddent yn rhan ohono. Ni wnaeth unrhyw ysgolion neu ymarferwyr argymell diwrnodau HMS yn ystod y gwyliau.

Y tebygrwydd/gwahaniaethau yn y themâu a godwyd amlaf gan y grwpiau poblogaeth gwahanol.

Ar y cyfan, nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yn y safbwyntiau a oedd gan y grwpiau poblogaeth gwahanol neu'r themâu a godwyd.

Dadansoddiad o Gwestiynau 7 ac 8

Hoffem wybod eich barn o ran yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn arbennig o ran:

Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Esboniwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellir llunio neu newid y polisi arfaethedig i gynnwys:

Effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
Osgoi effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Darparwyd 609 o sylwadau mewn ymateb i Gwestiwn 7 a darparwyd 453 o sylwadau mewn ymateb i Gwestiwn 8.

Gwnaeth llawer o ymatebwyr fynegi safbwyntiau cadarnhaol yn gyffredinol ond gwnaethant gymhwyso eu safbwyntiau neu awgrymu camau gweithredu ychwanegol er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol pellach.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo, er mwyn i'r cynigion ymestyn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, fod angen mwy o gymorth strwythuredig, hirdymor i gefnogi sgiliau Cymraeg. Gwnaeth yr ymatebwyr fynegi amheuaeth y gallai'r gofyniad i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r cwricwlwm gael ei gefnogi'n effeithiol drwy ddiwrnod HMS ychwanegol. Dadleuwyd y bydd hi'n ofynnol i athrawon gael mynediad at hyfforddiant mwy rheolaidd, dwys a phwrpasol i wella eu sgiliau Cymraeg a chyrraedd safon lle y bo hyn yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon wrth gyflwyno'r cwricwlwm.

"Dw i ddim yn credu y bydd un diwrnod HMS yn rhagargoel o ddwyieithrwydd yn ein hysgolion. Yn hytrach, dw i'n credu, er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd a tharged Llywodraeth Cymru o un filiwn o siaradwyr Cymraeg, yna bydd angen cyfnodau sabothol Cymraeg dwys ar athrawon lle y bônt yn cael eu cefnogi'n llawn i gyrraedd safon o Gymraeg y gellir ei throsglwyddo drwy'r cwricwlwm cyfan. Nid wyf yn cynnig gwasgu hyn i mewn i un neu hyd yn oed chwe diwrnod HMS." (Ymatebydd unigol)

Roedd llawer o ymarferwyr, yn arbennig, yn teimlo bod y newidiadau i'r cwricwlwm yn rhy eang i'w cwmpasu gan un diwrnod HMS ychwanegol ac y byddai'r amser ychwanegol yn annhebygol o arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Awgrymwyd y bydd angen cymorth penodol dros gyfnod o amser parhaus ar ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn gallu cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd sy'n cael ei ymgorffori ac yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgwyr. Mae'r diwrnodau HMS ychwanegol yn rhan fach yn unig o'r cymorth sydd ei angen. Mae enghreifftiau o gymorth penodedig sydd ei angen ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn cynnwys y canlynol: mynediad at raglenni dysgu Cymraeg strwythuredig (fel y nodir uchod); mynediad at adnoddau dwyieithog i gefnogi defnydd o'r Gymraeg (gweler isod am ragor o wybodaeth); cyfleoedd pellach i arsylwi ar

arferion da o ran defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fel rhan o weithgarwch dysgu proffesiynol; ac ymgysylltu ag arbenigwyr cyfrwng Cymraeg yn ystod HMS.

"Mae'r dull dwyieithrwydd ac lluosieithrwydd yn y cwricwlwm newydd a'r safonau proffesiynol newydd yn gosod cyfrifoldeb ar yr holl ymarferwyr i ystyried eu sgiliau ieithyddol eu hunain a'u lle o ran cefnogi datblygiad y Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Dylai athrawon deimlo eu bod yn cael eu cefnogi i allu cyflawni pan fo sgiliau ieithyddol presennol yn gyfyngedig a chael eu cyfeirio'n glir at gyfleoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, yn enwedig dysgu iaith." (Ymarferydd neu ysgol)

Nododd eraill hefyd fod anghenion ysgolion cyfrwng Saesneg yn ymestyn y tu hwnt i'r hyn sy'n bosibl drwy HMS. Gwnaeth llawer o ymatebwyr gydnabod bod y cwricwlwm newydd a'r strategaeth Cymraeg 2050 yn darparu cyfleoedd i gyflwyno dulliau a datblygiadau addysgeg arloesol.⁴ Fodd bynnag, gwnaeth ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd ddatgelu pryderon ymhlith rhai ymarferwyr, sy'n teimlo y gallai fod disgwyl iddynt gyflwyno dysgu "drwy gyfrwng y maent yn brin eu meistrolaeth ohono". Mae hyn hefyd yn tanlinellu'r angen i ysgolion (ac ymarferwyr unigol) allu cael mynediad at gymorth sy'n berthnasol i'w hanghenion a bylchau sgiliau er mwyn cefnogi'r continwmm Cymraeg arfaethedig.

Awgrymwyd y bydd angen cymorth a chanllawiau oddi wrth Lywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac Estyn er mwyn annog rhieni i weld arwyddocâd y Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn y sector cyfrwng Saesneg.

Gwnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad ddarparu amrediad eang o sylwadau yn ymwneud â'r angen i adnoddau dwyieithog fod ar gael i gefnogi HMS a dysgu proffesiynol yn fwy cyffredinol. Nododd yr ymatebwyr y dylai adnoddau a ddatblygwyd i gefnogi dysgu proffesiynol fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Roedd hyn o safbwynt tegwch a chydaddoldeb fel nad yw'r ysgolion a dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion hynny o dan anfantais.

"Mae'n hanfodol fod unrhyw adnoddau'n cael eu cyflwyno yn y ddwy iaith ar yr un pryd, a bod cyfleoedd llawn i bobl gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o unrhyw weithgareddau [HMS]. Nid yw hynny bob amser yn digwydd ar hyn o bryd yn ystod cyflwyniadau ar y Cwricwlwm i Gymru." (Ymarferydd neu ysgol)

Dadleuwyd y gallai diffyg adnoddau dwyieithog adael ymarferwyr cyfrwng Cymraeg o dan anfantais o ran gallu i ymgorffori hyfforddiant i'w gwaith cynllunio ac arferion addysgu.

"Rhaid i gonsortia allu cyflwyno hyfforddiant yn y Gymraeg a darparu adnoddau wedi'u cyfieithu. Mae'n aml yn wir yn ystod hyfforddiant nad yw'r adnoddau ar gael ac nid oes gan rai darparwyr hyfforddiant unrhyw ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg." (Ymarferydd neu ysgol)

Gwnaeth cynrychiolwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd danlinellu'r angen am adnoddau dwyieithog i helpu athrawon i ymgorffori'r Gymraeg i'w gwersi yn y cwricwlwm newydd.

Gwnaeth ymarferwyr a chyrrff cynrychioliadol hefyd gyfeirio at fanteision annog ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg / cymunedau o weithwyr proffesiynol i gydweithio ar greu a lledaenu deunyddiau. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn werthfawr o ran hyrwyddo cysondeb a chydaddoldeb wrth i'r adnoddau gael eu paratoi.

⁴ Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

"Dylai adnoddau gael eu llunio ar y cyd gydag ymarferwyr sy'n addysgu yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd, i sicrhau bod agweddau ieithyddol a diwylliannol y cwricwlwm yn cael eu cyflwyno gan yr holl ysgolion ac ymarferwyr yn yr un ffordd. Bydd datblygu ar y cyd yn sicrhau bod cydraddoldeb darpariaeth a chynnwys addas ar gyfer yr holl ymarferwyr yn yr holl ysgolion yng Nghymru." (Ymarferydd neu ysgol)

Gwnaeth yr ymatebwyr gyflwyno amrywiaeth o awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai diwrnodau HMS ychwanegol gael eu gweithredu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd yr awgrymiadau a wnaed ar sawl achlysur yn cynnwys y canlynol:

- Darparu hyfforddiant – neu elfennau o'r hyfforddiant – yn ddwyieithog. Awgrymwyd hefyd y gallai hyn hefyd helpu athrawon ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ymgyswngedig â'r derminoleg a themau addysgeg allweddol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm newydd yn y Gymraeg.
- Cyfeirio (neu gofrestru) athrawon yn ystod yr HMS i raglenni hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i athrawon, gan gynnwys y Cynllun Sabothol neu unrhyw raglenni neu gyrsiau perthnasol eraill.
- Canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau sgwrsio yn y Gymraeg yn hytrach na Chymraeg ysgrifenedig. Bydd hyn yn helpu i feithrin diwylliant Cymraeg mewn ysgolion lle y bydd plant yn gallu sgwrsio yn haws â'u cyfoedion a'r staff gan ddefnyddio'r Gymraeg.
- Cysylltu'r hyfforddiant â'r Siarter Iaith a rhaglenni Cymraeg Campus, sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg.⁵
- Canolbwyntio elfennau o'r hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.
- Rhoi ystyriaeth i gefnogi sgiliau Cymraeg ymhlith dysgwyr anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y dysgwyr hynny sy'n ddeiriau neu sy'n gyfyngedig o ran eu lleferydd a allai fod o dan anfantais pan fo'r Gymraeg yn cael ei haddysgu ochr yn ochr â'r Saesneg. Byddai canllawiau ar ddulliau addysgu effeithiol ar gyfer grwpiau arbennig o ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol yn fuddiol.

Gallai diwrnodau HMS gael eu defnyddio i feithrin cydweithio agosach rhwng ysgolion, gan gynnwys cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymu y gallai unrhyw HMS ychwanegol gael ei gyflwyno ar y cyd i gymysgedd o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, gan ddarparu cyfle i weithio gyda chymheiriaid a thrafod dulliau addysgeg ar draws y sectorau. Awgrymwyd y gallai hyn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a rhoi mwy o fewnwelediad i'r ysgolion hyn ynglŷn â sut mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio dulliau trochi ieithyddol a dulliau addysgeg eraill.

Gwnaeth llawer o ymatebwyr gyfeirio at gyfleoedd a ddarperir gan ddiwrnodau HMS ychwanegol i hyrwyddo mwy o hylifedd rhwng y sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

⁵ <https://cymraeg.gov.wales/learning/schools/SiarterIaith/?lang=cy>
<https://www.erw.cymru/ysgolion/dysgu-ac-addysgu/siarter-iaith/>

Nododd yr ymatebwyr hefyd y gallai fod cyfleoedd i staff o ysgolion gwahanol ddod ynghyd a rhannu arferion da, boed hynny'n gysylltiedig â'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm, eu datblygiad proffesiynol eu hunain yng nghyd-destun y safonau addysgu, adnoddau, neu gynllunio strategol. Awgrymwyd bod modelau clwstwr, grwpiau rhwydweithio neu grwpiau gwella ysgolion gwahanol ar draws y rhanbarthau a allai gael eu defnyddio fel sail i gynllunio a chyflwyno gweithgarwch HMS ar y cyd.

"Dewch â'r ysgolion at ei gilydd fel y gallant weld arferion ei gilydd a mynd allan o'u hysgolion eu hunain. Gall ysgolion fod yn rhy ynysig." (Ymarferydd neu ysgol)

Mae ymatebwyr yn teimlo bod angen canllawiau clir i sicrhau bod partneriaid yn deall beth y disgwylir i unrhyw HMS ychwanegol ei gyflawni o ran cefnogi'r Gymraeg. Awgrymwyd, er mwyn i HMS gael effaith gadarnhaol ar ddefnydd o'r Gymraeg, y dylai Llywodraeth Cymru, y consortia a'r ysgolion feddu ar ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn y disgwylir i'r HMS ei gyflawni a sut y dylai ysgolion weithio tuag at y canlyniadau bwriadedig. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo hefyd y dylid nodi'n glir mewn dogfennau polisi neu ganllawiau cenedlaethol fod angen dyrannu (a diogelu) amser i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg neu addysg cyfrwng Cymraeg. Oni bai fod hynny'n digwydd, teimlwyd bod yr HMS ychwanegol mewn perygl o beidio â chael unrhyw effaith ar yr iaith.

Gwnaeth llawer o ymatebwyr fynegi cefnogaeth yn fras neu amlinellu enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol o'r cynigion, heb fanylu. Isod mae'r effeithiau mwyaf cadarnhaol a godwyd amlaf yn cael eu crynhoi, wedi'u categorio o dan bedwar pennawd allweddol.

Cefnogi nodau polisi ehangach: bydd yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg; gallai gefnogi mwy o weithio ac ymgysylltu rhwng ysgolion, gan alluogi ysgolion i gydweithio ar ddatblygu, adolygu a gwella'r cwricwlwm.

Cynyddu a gwella defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm: cynyddu'r ffocws a'r pwyslais ar y Gymraeg a chodi safonau; cefnogi ysgolion gyda gwaith parhaus drwy'r Siarter Iaith a rhaglenni Cymraeg Campus; datblygu syniadau trawsgwricwlaidd i ymgorffori'r Gymraeg mewn ffyrdd newydd.

Cynnig buddiannau i ddysgu proffesiynol i'r gweithlu addysgu yn fwy cyffredinol: darparu amser ychwanegol i athrawon ymgysylltu â dysgu proffesiynol; amser a syniadau ychwanegol i gefnogi gwaith cynllunio athrawon yn y maes hwn; bydd yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd, a fydd yn cefnogi cyflwyno gwell ar gyfer dysgwyr; hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff sy'n llai hyderus neu'n bryderus am ddefnydd pellach o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

Buddion i ddysgwyr: cynnydd o ran dealltwriaeth ymhlith plant o'u hiaith, treftadaeth a diwylliant; cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg.

Ymhlith y rhai a fynegodd amheuan neu anghytuno â'r cynigion, mae'r materion a godwyd amlaf wedi'u nodi isod.

Mae nifer annigonol o athrawon gyda sgiliau Cymraeg a bydd y gofynion ychwanegol ar gyfer addysgu Cymraeg yn rhoi beichiau ychwanegol ar weithlu addysgu sydd eisoes wedi'i orymestyn. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y gofynion ar athrawon o ran paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd eisoes yn sylweddol ac y byddai ffocws ychwanegol ar y Gymraeg (gyda'r gofynion dysgu proffesiynol cysylltiedig) yn arwain at bwysau diangen.

Gwnaeth eraill danlinellu'r prinder athrawon Cymraeg arbenigol, yn enwedig yn y sector cyfrwng Saesneg, lle mae dyheadau i ymestyn addysgu Cymraeg.

"Credaf fod arbenigedd staff yn atal trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg – ni fydd un diwrnod ychwanegol yn gallu llenwi'r bylchau o ran arbenigedd Cymraeg staff." (Ymarferydd neu ysgol)

Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo na ddylid blaenoriaethu'r Gymraeg. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo y dylai amser ac adnoddau gael eu canolbwyntio ar wella safonau mewn meysydd pwnc allweddol eraill.

"Canolbwyntiwch ar gael y Saesneg yn gywir. Mae honno'n iaith lawer yn fwy gwerthfawr i'w rhoi i ddysgwyr gan ei bod yn iaith a ddefnyddir yn fyd-eang." (Ymarferydd neu ysgol)

Roedd eraill yn teimlo na ddylai'r Gymraeg dderbyn unrhyw fwy o sylw na flaenoriaeth nag agweddau eraill ar Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Roedd rhai yn credu y gallai blaenoriaethu'r Gymraeg – yn enwedig yn y sector cyfrwng Saesneg – gael derbyniad negyddol.

"Dw i'n credu y bydd pobl o dan bwysau i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd felly ni fydd rhoi amser i ddefnyddio'r Gymraeg os yw'n ail iaith yn cael ei weld mewn modd cadarnhaol. Os yw'r diwrnod HMS yn ymwneud â pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, dyna le y dylai'r ffocws fod." (Ymarferydd neu ysgol)

Yn gysylltiedig â'r uchod, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai ysgolion fod yn rhydd i ddewis i ba raddau maen nhw'n ymgysylltu â'r Gymraeg a chyfleoedd dysgu proffesiynol cysylltiedig. Awgrymwyd y dylai ysgolion ddewis derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg neu'r Saesneg, gan ddibynnu ar yr hyn sy'n arferol iddynt. Gwnaeth yr ymatebwyr - yr oedd llawer ohonynt yn ymarferwyr a chynrychiolwyr ysgolion o'r sector cyfrwng Saesneg - gyflwyno'r achos y byddai sgiliau ieithyddol athrawon yn creu heriau o ran cael mynediad at unrhyw hyfforddiant a gyflwynir yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

"Mae hyn yn dibynnu ar gymhwysedd y staff o ran y Gymraeg. Mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae rhai staff yn defnyddio Cymraeg yn achlysurol ond ni fyddai ganddynt lefel ddigon uchel o gymhwysedd er mwyn i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg." (Ymarferydd neu ysgol)

Fodd bynnag, cafodd safbwyntiau tebyg hefyd eu mynegi gan rai ymatebwyr a oedd yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

"Gwella'r cwricwlwm Cymraeg, cadwch ef yn gadarnhaol, yn hwyl ac yn ddeniadol. Peidiwch â'i wthio ar staff a disgyblion gydag asesiadau / meini prawf. Fel siaradwr Cymraeg mamiaith, rwyf yn cael fy nhristâu gan y negyddoldeb mae Cymraeg 'a orfodir' yn ei greu." (Ymarferydd neu ysgol)

Dadansoddiad o Gwestiwn 9

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech nodi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt wedi derbyn sylw penodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Darparwyd 191 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Gwnaeth yr ymatebwyr achub ar y cyfle hwn i grybwyll themâu yr oeddent wedi eu crybwyll mewn manau eraill yn yr ymgynghoriad a/neu ailbwysleisio themâu roeddent yn teimlo oedd yn arbennig o bwysig. Nid oedd yr holl themâu a godwyd yn ymwneud yn unig neu'n uniongyrchol â'r diwrnodau HMS ychwanegol arfaethedig. Roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn.

Gwnaeth yr ymatebwyr gynnig sylwadau pellach yn ymwneud â strwythur a dull posibl ar gyfer HMS a dysgu proffesiynol. Roedd rhai o'r sylwadau hyn yn canolbwyntio ar yr angen i leihau tarfu ar ddisgyblion, yn trafod amserlenni cyflenwi gwahanol megis a fyddai cyflenwi yn ystod cyfnodau gwyliau yn briodol ai peidio, a chyflenwi mewn blociau mwy dwys ar ddechrau neu ddiwedd tymhorau ysgol. Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar y posibilrwydd o ddylunio dull dysgu proffesiynol mwy strwythuredig, rheolaidd ar gyfer dysgu proffesiynol; yn hytrach na diwrnodau HMS ychwanegol (neu yn ychwanegol atynt), byddai'n bosibl rhyddhau staff ar amserlen benodol i weithio ar elfennau penodol o ddylunio'r cwricwlwm. Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd godi ymholiadau ynglŷn â'r ffordd y bydd yr hyfforddiant ar ddiwrnodau HMS yn cael ei gyflenwi yn ymarferol: gan bwy a sut i sicrhau bod yr hyfforddiant yn hygyrch i'r holl ymarferwyr.

“Ar hyn o bryd, mae llawer o ysgolion yn genedlaethol yn archwilio/trafod ffyrdd arloesol eraill o ryddhau amser yn rheolaidd ar gyfer hyfforddiant staff. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi prynhawn efallai unwaith y mis, ar gyfer mewnbwn penodol, yn dilyn ymgynghoriad â'r rhieni. Fel arall, ymestyn y diwrnod ysgol o ddydd Llun i ddydd Iau i ryddhau prynhawn dydd Gwener bob wythnos/pythefnos ar gyfer hyfforddiant staff. Syniad arall yw aildrefnu'r diwrnod ysgol ychydig i greu awr un bore yr wythnos ar gyfer hyfforddiant staff dwys. Agwedd ddiddorol meddylfryd o'r fath yw amllder a chynaliadwyedd modelau o'r fath.”
(Sefydliad haen ganol)

Roedd rhywfaint o bryder ynghylch y diffyg gwybodaeth ymddangosiadol ynglŷn â'r cwricwlwm newydd, a/neu faint o ganllawiau sydd ar gael i ymarferwyr. Gwnaeth yr ymatebwyr fynegi pryder ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael am gynnwys y cwricwlwm, strwythurau asesu, a'r disgwyliadau a roddir ar ymarferwyr o ran gweithredu'r cwricwlwm newydd o hyn ymlaen. Dywedodd rhai ymarferwyr fod gwybodaeth ddiweddar roeddent wedi ei derbyn heb ddarparu lefel newydd sylweddol o fanylder (yn hytrach roedd yn ailadrodd egwyddorion roeddent eisoes yn gyfarwydd â hwy). Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai ymarferwyr yn elwa ar ganllawiau cliriach oddi wrth sefydliadau haen ganol ac undebau ar bob elfen o'r cwricwlwm newydd a chymorth i fynd i'r afael â'r elfennau mwy heriol. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y gallai'r cwricwlwm newydd weithio yn ymarferol mewn ystafelloedd dosbarth. Er bod rhai ymatebwyr yn mynegi rhywfaint o gyffro ynghylch y cyfleoedd a gynigir gan y cwricwlwm newydd, serch hynny roedd rhywfaint o bryder ynglŷn â'r diffyg ymddangosiadol o ran disgwyliadau diffiniedig.

Yn yr un modd, mae angen gwybodaeth bellach am y trefniadau asesu ac arolygu arfaethedig. Mae rhai ymatebion yn cefnogi'r symudiad tuag at system atebolrwydd lai trafferthus ond maent yn gofyn am fwy o fanylion ynglŷn â sut y bydd trefniadau asesu yn gweithio yn ymarferol a sut y bydd arolygiadau Estyn yn cael eu diwygio yn y blynyddoedd i ddod.

"Rwy'n teimlo bod llawer o weithwyr proffesiynol yn gyffrous am newid a chyfle newydd i wella addysg. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol yn bryderus ynglŷn â'r fiwrocratiaeth sy'n gallu dod law yn llaw â chyfnod pontio ac maen nhw'n bryderus nad ydynt yn gwybod digon ynglŷn â'r hyn y dylent fod yn ei wneud cyn iddo fod yn statudol. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i ddarparu gweledigaeth glir ynglŷn â'r hyn y bydd y cwricwlwm newydd yn ei olygu a sut y bydd yn edrych yn ymarferol. Mae llawer o ddogfennau ond dw i ddim yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol wedi ymgysylltu'n arbennig â hwy. Efallai byddai'n ddefnyddiol cael rhai fideos i ysgolion eu defnyddio yn ystod hyfforddiant staff, trefnu diwrnod hyfforddiant wedi'i ffrydio'n fyw i athrawon ledled y wlad, a chael hyfforddwyr cyson i ymweld â phob ysgol." (Sefydliad addysg uwch)

Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd fynegi rhai pryderon ynghylch y ffordd y byddai adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol a diwygio'r cwricwlwm yn ehangach. Pwysleisiwyd bod ysgolion yn wynebu heriau parhaus o ganlyniad i gyllidebau sy'n dirywio hyd yn oed cyn i ofynion gweithredu'r cwricwlwm newydd gael eu hystyried. Gwnaeth yr ymatebwyr fynegi pryder na fydd ysgolion yn gallu ariannu'r gofynion hyfforddiant ychwanegol (p'un a fydd y rhain yn cael eu gweithredu ar ffurf diwrnod HMS ychwanegol neu ar ffurf wahanol). Mynegir pryder arbennig am y diffyg adnoddau i ariannu'r amrediad eang o hyfforddiant sy'n ofynnol i ymateb i'r diwygio addysg ehangach (gan gynnwys darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol). Bydd angen adnoddau hefyd i gefnogi ysgolion i greu adnoddau addysgu, rhyddhau staff ar gyfer cynllunio, a sicrhau bod offer TG o safon ddigonol i gefnogi elfennau cymhwysedd digidol y cwricwlwm newydd.

"Mae goblygiadau hyfforddiant enfawr ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ysgolion yn gallu ariannu'r hyfforddiant hwn? Ar hyn o bryd, nid oes gennym gyllideb hyfforddiant sy'n bodoli." (Ymatebydd unigol)

Mae angen amser digonol ar athrawon i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd, ei ddeall, a pharatoi ar ei gyfer. Mae ymatebwyr yn cydnabod bod y cwricwlwm newydd yn newid sylweddol o'r cwricwlwm blaenorol a bydd yn gymhleth i ymarferwyr ei weithredu. Mae cydnabyddiaeth fod y sector addysg wedi buddsoddi cryn amser ac ymdrech i ddatblygu'r cwricwlwm hyd yn hyn a bellach mae'n bwysig caniatáu i'r holl ymarferwyr roi amser ac ystyriaeth gyfatebol i'w cynlluniau eu hunain. Pwysleisiodd yr ymatebwyr ei bod yn cymryd amser a gofod i ganiatáu i ymarferwyr ddatblygu cwricwlwm newydd creadigol a hyblyg; bydd amser dysgu proffesiynol digonol yn helpu i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu gwneud cyfiawnder â'r weledigaeth newydd.

"Er mwyn i'r cwricwlwm lwyddo, mae HMS ychwanegol yn hanfodol. Mae angen amser ar ysgolion i ymgysylltu a datblygu eu harferion yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Heb hyn, mae llawer o bryder y bydd gorgymhathu a bydd yr effaith gadarnhaol yn cael ei lleihau. Ni allwn greu system addysg o'r radd flaenaf ar gyllideb geiniog a dimai, neu drwy bocedi bach o amser a gaiff eu cipio yn ad hoc. Dylai amser helpu athrawon i adeiladu rhywbeth sy'n wych ar gyfer ein holl ddinasyddion yn y dyfodol." (Ysgol neu ymarferydd)

Mynegodd ymatebwyr bryder fod llwyth gwaith cyfredol ymarferwyr yn ormodol a bod y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn wael; bydd hyn yn cael ei waethgu wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Gwnaeth yr ymatebwyr hyn ailadrodd pryderon ynglŷn â'r pwysau a roddir ar ymarferwyr ar hyn o bryd, y gwnaethant adrodd sy'n cael effaith negyddol ar forâl y gweithlu addysgu. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio na ddylid tanbriso'r cynnydd o ran llwyth gwaith a fydd yn deillio o gyflwyno'r cwricwlwm newydd; bydd amser HMS

ychwanegol a chymorth dysgu proffesiynol ehangach yn dangos lefel briodol o ystyriaeth ar gyfer y llwyth gwaith hwn.

"Mae angen yr amser ychwanegol hwn ar staff ysgol i wella eu haddysgeg eu hunain heb ildio mwy o'u hamser eu hunain. Mae hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith." (Ysgol neu ymarferydd)

Mae'n bwysig ystyried cwmpas y diwygio addysgol yn gyffredinol wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â chyfluoedd dysgu proffesiynol ac amser ychwanegol. Gwnaeth yr ymatebwyr fynegi ymwybyddiaeth y dylid ystyried diwrnodau HMS ychwanegol yng nghyd-destun amrediad o ddiwygiadau addysgol a fydd yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae newidiadau allweddol i'w hystyried yn cynnwys newidiadau i strwythurau dysgu proffesiynol, tâl ac amodau athrawon, dulliau hunanwerthuso, dulliau newydd ar gyfer asesu ac arolygu, a diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â datblygiadau polisi ehangach yn y sector addysg. Dywedodd ymatebwyr y dylai diwrnodau HMS ychwanegol a chyfluoedd dysgu proffesiynol eraill fod â blaenoriaethau clir, gan sicrhau nad yw ymarferwyr yn cael eu tynnu i sawl cyfeiriad wrth geisio ymateb i amrywiaeth o ddiwygiadau addysgol.

"Nid yw'n hollol glir sut mae'r cwestiwn ynglŷn â sut mae'r agenda ar gyfer dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â hunanwerthuso effeithiol, diwygio anghenion dysgu ychwanegol a materion lleol/cenedlaethol allweddol eraill. Mae angen inni sicrhau bod y rhain yn cyfuno ac nid ydynt yn dod yn faterion sy'n tynnu ysgolion i gyfeiriadau gwahanol." (Ysgol neu ymarferydd)

Dylid ystyried safbwyntiau ac anghenion rhieni neu warcheidwaid wrth ddiwygio diwrnodau ysgol. Codwyd dwy brif thema gan ymatebwyr o ran ymgysylltu â rhieni neu warcheidwaid. Yn gyntaf, bydd diwrnodau HMS ychwanegol yn rhoi baich ar rieni o ran costau a threfniadau gofal plant a dylid cadw hyn mewn cof pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud. Yn ail, mae lle i gyfathrebu gwerth diwrnodau HMS yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod rhieni neu warcheidwaid yn deall rheidwydd diwrnodau HMS a'r effaith gadarnhaol y bydd yr amser hwn yn ei chael ar addysg eu plant.

"Dw i'n cynnig cynnwys y rhieni mewn ysgolion gyda'r gofyniad i ysgolion fod yn agored ac yn atebol i'r rheini sy'n warcheidwaid y disgyblion. Ar hyn o bryd, nid yw'r defnydd o ddiwrnodau HMS yn cael ei ddeall yn eang, ac nid yw ysgolion yn cyfathrebu â rhieni ynglŷn â'r hyn maent yn ei wneud a pham eu bod yn ei wneud ar y diwrnodau hyn. Mae ychwanegu diwrnod arall yn gyfle i ychwanegu elfen o atebolrwydd i sicrhau y dywedir yn glir wrth rieni sut y mae'r bobl sy'n addysgu eu plant yn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth." (Ymatebydd unigol)

Gwnaeth yr ymatebwyr ailbwysleisio'r angen am fwy nag un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn a/neu ddiwrnodau ychwanegol am fwy na thair blynedd. Gwnaeth y sylwadau hyn adleisio'r rhai a godwyd mewn cwestiynau cynharach yn yr ymgynghoriad, gan nodi bod cymhlethdod y gofynion cwricwlwm newydd yn gwneud mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd yn angenrheidiol.

Ailbwysleisiwyd bod amser dysgu proffesiynol penodol ychwanegol, megis diwrnodau HMS, yn arbennig o werthfawr gan ei fod yn rhoi cyfle ar gyfer cydweithio. Nodir bod gweithio trawsffiniol yn egwyddor graidd y cwricwlwm newydd ac ni all y gwaith cynllunio cydweithredol ac arloesedd gofynnol gael eu cyflawni yn ystod gweithgareddau cynllunio annibynnol (megis cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu). Gwelir bod y gofyniad cydweithio

hwn yn gymwys nid yn unig i ymarferwyr ymhob ysgol ond hefyd i ysgolion mewn clystyrau a rhanbarthau sydd angen datblygu dull eithaf cyson o ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm a rhannu arferion da.

"Hoffwn weld un diwrnod HMS ychwanegol i ysgolion o fewn siroedd i rannu syniadau a chydweithio ar brosiectau ac yna un diwrnod ychwanegol yn yr ysgol i weithredu ar syniadau. Mae'n hanfodol i ysgolion cyfagos gydweithio fel nad yw'r llwyth gwaith hyd yn oed yn fwy anodd ei reoli nag y bo ar hyn o bryd." (Ymatebydd unigol)

Gwnaeth yr ymatebwyr achub ar y cyfle hwn i bwysleisio y dylid ystyried amgylchiadau penodol ysgolion arbennig a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â chyfleoedd dysgu proffesiynol. Gwnaeth yr ymatebwyr bwysleisio bod ysgolion arbennig eisoes yn wynebu gofynion sylweddol o ran dysgu a hyfforddiant proffesiynol gorfodol ac felly maent yn wynebu heriau penodol o ran dyrannu amser ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd bwysleisio y bydd cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael effeithiau ar unwaith ar gyfer arferion addysgu a dylid ei flaenoriaethu ochr yn ochr â diwygio'r cwricwlwm ar ddiwrnodau HMS.

"Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru y gallai'r cyfnod hwn o newid sylweddol olygu bod angen amser ychwanegol ar ysgolion ac athrawon ar gyfer hyfforddiant i'w helpu i baratoi. Yn hytrach na chanolbwyntio yn unig ar gyflwyno'r cwricwlwm newydd, rydym yn argymhell bod unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn canolbwyntio'n fwy cyfannol ar gyd-destun ehangach newid a thrawsnewid yn y byd addysg yng Nghymru. Yn benodol, hoffem ddefnyddio'r cyfle hwn i sicrhau bod ysgolion ac athrawon wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn 2020." (Sefydliad y trydydd sector)

Pwysleisiodd nifer bach o ymatebwyr amrywiaeth o themâu eraill hefyd, gan gynnwys yr isod:

- Awgrymiadau yn ymwneud â **chynnwys y cwricwlwm** (megis cynnwys pwyslais ar lythrennedd corfforol, cwricwlwm cyfannol yn canolbwyntio ar hanes a diwylliant Cymru, ac osgoi gorlethu'r cwricwlwm);
- Pwyslais ar sicrhau bod gan ymarferwyr ymreolaeth ddigonol o ran eu **harferion addysgu**;
- **Beirniadaeth** o'r cwestiynau ymgynghori;
- Pwysigrwydd **cynnwys yr holl ymarferwyr** (ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, athrawon cyflenwi, cynorthwywyr addysgu ac ymarferwyr rhan-amser) mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol;
- Pwysigrwydd **sicrhau cysondeb** wrth gyflwyno'r cwricwlwm a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar draws ysgolion;
- Pwysigrwydd **ymgysylltu â rhanddeiliaid** wrth ddatblygu'r cwricwlwm;
- Rhaid i ddiwrnodau HMS ddarparu cynnwys o **ansawdd uchel**;
- **Gwrthwynebiad cyffredinol** i ddiwygio'r cwricwlwm;
- Sicrhau bod yr **holl sectorau a darparwyr addysg yn cael eu hystyried yn ystod trafodaethau dysgu proffesiynol**, gan gynnwys y sector nas cynhelir, y sector addysg bellach, gweithwyr ieuenctid, a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon.